

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 577 • Gorffennaf 2026 • £1

Agor Pont Sarnau Newydd



Steven a'r hogia yn adeiladu sylfaen y bont



Y Bont Newydd

Ar fore Mawrth, Mehefin 9fed daeth nifer ynghyd wrth Pont Sarnau ar gyfer y digwyddiad o'i hagor yn swyddogol. Roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Cyngor Cymuned Bethesda, Cyngor Tregarth/ Mynydd Llandygai, Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor a phrif contractwyr OBR Construction. Agorwyd y bont yn swyddogol gyda Elin Walker Jones, Cadeirydd Cyngor Gwynedd yno i dorri y ruban coch.

Mae'r bont yn rhan o Lôn Las Ogwen a dywedodd y Cynghorydd Craig ap Iago, aelod o Gabinet Amgylchedd Gwynedd "Mae Lôn Las Ogwen yn adnodd gwerthfawr iawn yma yn yr ardal ac yn dilyn gwelliannau i bontydd troed yn ardal Porth Penrhyn a gwella hygyrchedd y llwybr yn y misoedd diwethaf."

"Dyma'r cam ddiweddaraf mewn rhaglen ehangach o welliannau, ac rwy'n obeithiol y byddwn yn gweld rhagor o ddatblygiadau i wella llwybrau

beicio a cherdded yn Nyffryn Ogwen yn y blynyddoedd i ddod."

Rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi ydyw'r gwaith, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU a'i arwain gan Gyngor Gwynedd. Bu cyfres o welliannau wedi dynoi Tirwedd Llechi Gogledd Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd.

Braf iawn oedd gweld Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell yn bresennol. Mae'r Lôn Las yn mynd heibio ei chartref a mawr fu y mynd a'r dwad yn ystod y misoedd diwethaf. Gwelir newid mawr yn y llwybr rhwng ei chartref a'r bont, sydd bellach yn llydan braf, ond gyda'r hen bileri llechi wedi eu rhifo'n ofalus a'i hail ddefnyddio. Bu adeiladwr lleol Steven Eames a'i weithwyr yn adeiladu'r sylfaeni llechi i'r bont, y waliau cerrig a'r llwybr newydd.

Gobeithio y bydd pawb yn hapus efo'r bont newydd a ddiolch

i'r hen Bont Sarnau am roi dros 150 mlynedd o'i defnydd i ni groesi i 'ochr draw i'r afon.'

Darllenwch hanes Pont Sarnau ar wefan **Hanes Dyffryn Ogwen** hanesdyffrynogwen.wordpress.com.

com Safle ddiddorol eithriadol gyda dros 110 o ysgrifau am Ddyffryn Ogwen, dan ofal John Llewelyn Williams a Lowri Wynne Williams. Cewch 'Pont Sarnau' yn Mai 2026.



Y llwybr newydd tuag at Tanysgrafell



Gwen Davies yn cael 5 munud wrth y bwrdd picnic newydd

Llais Ogwan

Rhif 577
Gorffennaf 2026

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

Swyddogion
CADEIRYDD

Carwyn Meredydd
carwynnian@hotmail.com

Trefnydd hysbysebion

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd

Gareth Llwyd
07887 667956
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

Archebu
trwy’r post

Gwledydd Prydain
Yn anffodus, oherwydd
cynnydd aruthrol yng nghostau
postio, 'rydym wedi cael ein
gorfodi i godi ein pris i £35 y
flwyddyn.

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
(Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y Mis – Golygwyd rhifyn y mis
hwn gan **Neville Hughes**.

Y golygydd ym mis **Medi** fydd **Ieuan Wyn**,
Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG. 01248 600297
Ebost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,
29 Awst** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 10 Medi**, yn
llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.



Clwb Cyfeillion

Gwobrau Gorffennaf

- £30 (59) Ann T. Jones, Talycae,
Tregarth.
- £20 (80) Pat Roberts, Pant, Bethesda.
- £10 (49) Menna Jones, Maes yr Athro,
Carneddi.
- £5 (6) Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda.

Diolch yn fawr

Dyddiadur y Dyffryn

Gorffennaf

28 Gyrfa Chwist. Llawr Uchaf Canolfan
Cefnfaes am 6.45.

Awst

20-22 Arddangosfa Arlunio. Canolfan
Glasinfryn, 11.00–3.30

Medi

- 08 Gyrfa Chwist. Llawr Uchaf Canolfan
Cefnfaes am 6.45.
- 11 Cowbois Rhos Botwnnog yn Neuadd
Ogwen 7.30.
- 17 Noson gasglu a dosbarthu Llais
Ogwan. Llawr uchaf Cefnfaes am
6.45.
- 22 Gyrfa Chwist. Llawr Uchaf Canolfan
Cefnfaes am 6.45.
- 25 Bore Coffi MacMillan ac Ymchwil
Cancr. Festri Capel Jerusalem.
10.00–12.00.
- 29 Gyrfa Chwist. Llawr Uchaf Canolfan
Cefnfaes am 6.45.

Rhoddion i'r Llais

- £10 Di-enw, Maes Bleddyn.
- £5 Iona Robertson.
- £20 Er cof annwyl am Dylan
Rowlands oddi wrth Dad, Mam
a'r teulu, Erw Las.
- £15 Dylan a Helen Williams.
- £20 Er cof am Arthur am Margaret,
6 Rhos y Coed.
- £30 Er cof am Dad, sef Richard
Temple Morris, Tai'r Cae, Gerlan a
fyddai wedi dathlu ei benblwydd
yn 90 oed ar Orffennaf 18fed.
Oddi wrth Martin, Ann ac Eirwen.

Diolch yn fawr

*Newyddion Medi i'w dderbyn
erbyn dydd Sadwrn, 29 Awst
Dyddiad cyhoeddi –10 Medi*



*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?
Cysylltwch a Neville Hughes - nev_hughes@btinternet.com*

Sioe Lwyddiannus

Cynhaliwyd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen eleni, ar ddydd Sadwrn 6ed o Fehefin. Er na fu'r tywydd ar ei orau, ni wnaeth amharu ar frwdfrydedd y cystadleuwyr na'r ymwelwyr. Roedd lluo o gystadlu brwd unwaith eto eleni, gyda chystadleuwyr o bob cwr o'r Dyffryn a thu hwnt yn dod ynghyd i gefnogi'r sioe.

Roedd y defaid yn ganolog i'r digwyddiad, gyda bridwyr yn dangos eu stoc gorau ac roedd safon y cystadlu yn uchel iawn. Yn anffodus, oherwydd y tywydd, ni chynhaliwyd y gystadleuaeth cneifio.

Roedd cystadlu brwd iawn yn adran y ceffylau, gyda nifer dda o geffylau wedi eu paratoi'n ofalus ar gyfer y diwrnod. Braf oedd gweld cymaint o ymdrech gan y cystadleuwyr.

Roedd cŵn o bob lliw a llun i'w gweld yn y prif gylch, ac roedd y gystadleuaeth yn fywiog iawn. Dyma un adran o'r sioe sydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac sydd bellach yn boblogaidd dros ben ymhlith cystadleuwyr a'r gynulleidfa.

Roedd y babell cynnyrch cartref yn llawn dop o gacennau, llysiau, gwin, crefftau a llawer mwy, i gyd wedi eu paratoi gan bobl leol. Cafwyd safon uchel iawn ar draws y dosbarthiadau ac yn profi unwaith eto fod cryn dalent yn y Dyffryn. Braf hefyd oedd



gweld nifer o stondinwyr ac arddangoswyr hen beiriannau wedi dod i gefnogi'r sioe.

Dymuna Pwyllgor y sioe diolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth a gafwyd eleni. Diolch i Glwb Rygbi Bethesda am gael defnyddio'r cyfleusterau unwaith eto, Ysgol Dyffryn Ogwen am gael defnyddio'r iard ar gyfer parcio a Phartneriaeth Ogwen am y defnydd o'r bws mini i gludo pobl yn ôl a blaen o'r cae. Diolch arbennig i'r holl wirfoddolwyr sydd yn rhoi eu hamser er mwyn sicrhau fod Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen yn ffynnu.

Mae'r paratodau ar gyfer sioe blwyddyn nesaf eisoes wedi cychwyn ac edrychwn ymlaen at weld pawb flwyddyn nesaf pan fydd y sioe yn dalthlu ei hanner canfed sioe!

Mae dyddiad hefyd wedi ei bennu ar gyfer Taith Tractors arall eleni sef Dydd Sul 15.12.26 – mwy o fanylion i ddilyn dros y misoedd nesaf!



Llythyrau

Annwyl Olygydd Llais Ogwen,
Yn diweddar edrychais unwaith yn rhagor ar ' Transactions of the National Eisteddfod, Liverpool,1884', llyfr a roddwyd I mi gan berthynas i fy nhad yn Lerpwl, yn nechreu y chwedegau. Y mae'n lyfr trwchus, gan gynnwys dros chwech chant saith deg o dudalennau, a'r iaith Saesneg ychydig yn fwy amlwg na'r Gymraeg. Yn ddiddorol,fe welais bod y dosbarth cyntaf mewn dwy gystadleuaeth wedi eu hennill gan drigolion o'r Dyffryn.

Ennillwyd y gystadleuaeth Canu gyda'r Delyn gan Eos y Berth. Roeddwn yn gwybod am ei fab, Eos y Berth, ac mae rhaglen ganddo yn fy meddiant, gyda llun ohono a'i blant Bobi a Bertha, ac sydd yn cynnig engreiffiau o'u caneuon. Adwaenwyd Bobi ymhellach fel y Parchedig R. Maurice Williams, Waterloo, Lerpwl.

Daeth y Penrhyn Choral Union, gyda eu harweinydd y Dr Roland Rogers, ar y brig yng nghystadleuaeth y corau mawr. Am hyn cawsant y swm o ddau can gini, a rhoddwyd medal aur i'r arweinydd. Roedd y swm o ddau can gini i'w gweld yn swm

enfawr ar y pryd.

Gwn fod cryn dipyn o'r Dyffryn yn hynod wybodus am yr ardal, a meddwl oeddwn os oes un ohonynt a all roi mwy o wybodaeth am unai Eos y Berth, neu y Penrhyn Choral Society.

Gyda diolch.

Edgar Roberts, Llanfairpwll.



Eglwys St. Cedol, Pentir

Jazz St. Cedol

Nos lau y 7fed o Fai cafwyd noson wych o gerddoriaeth Jazz yn Eglwys St. Cedol yng nghwmni Brechdan Jam a'r Jamettes (Ysgol

David Hughes). Hoffwn ddiolch i'r bandiau ag i Einion Dafydd a Cefin am drefnu'r noson. Roedd elw y noson ym mynd tuag at Cronfa Atgyweirio'r Eglwys.

Iachad

Hoffwn fel eglwys ddymuno iachad buan i Eirwen sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, Brishia wella Eurs.

Diolch

Ar ran aelodau Eglwys St. Cedol hoffwn ddiolch i aelodau Parchu Pentir am y gwaith rhyfeddol

maent wedi ei wneud ar dacluso'r fynwent dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Coeliwch chi fi mae'r fynwent yn edrych yn anghygoel. Diolch yn fawr iawn am eich gwaith diflino.

Te Bach

Mae Eglwys St.Cedol yn cynnal ei Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch. Bydd y Tê Bach nesaf ar y 1af o Orffennaf. Mae croeso i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

Clwb Crefftau

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod bob prynhawn Gwener o'r mis am 2 o'r gloch. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

Gwasanaethau'r Sul

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

Wythnos Caru'n Beddrodau

Mae'r eglwysi drwy'r DU wedi eu gwahodd i agor eu mynwentydd i'n cymunedau i ddarganfod yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd ynddynt. Roedd cymryd rhan yn ffordd ardderchog o gysylltu â natur, addysgu'n cymunedau ac i ddod i adnabod eu bro yn well a dathlu'r amrywiol fathau o fywyd gwyllt sydd i'w darganfod yn y mannau arbennig yma.

Fel rhan o'r Wythnos arbennig yma agorodd Eglwys Cedol Sant ym Mhentir ei giât a'i drysau i croesawu'r gymuned i fod yn rhan o'u dathliadau ar bnawn Sul y 14eg o Fehefin,

Yn ystod y pnawn roedd sgwrs gan Cynrig

Hughes am hanes rhai o'r beddrodau y fynwent, taith ddirgel o amgylch y fynwent ag oddi fewn i'r eglwys a chyfle i gyfnodi'r bywyd gwyllt a chlywed cyfieithiad o gerdd sydd wedi ei cherfio ar garreg fedd dyn a gafodd ei fwrddro ar ei ffordd adref o dafarn ym Mangor. Diolch i Cynrig am hanesion diddorol dros ben.

Roedd lluniaeth ysgafn ar gael yn ystod y prynhawn wedi ei baratoi gan Michelle, Caroline a Katy, aelodau o Bwyllgor Parchu Pentir. Diolch yn fawr i chi oll tair.

Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan o'r gymuned ac o bellafoedd y DU i fwynhau'r prynhawn.

Cwt Dafydd Ross – pwysigrwydd cadw enwau lleoedd Cymraeg

Dydd Sadwrn, 13eg o Fehefin, trefnwyd taith gan Gyngor Cymuned Llanllechid i osod arwydd newydd ar Gwt Dafydd Ross ar gopa Moel Grach yng nghesail Carnedd Llewelyn. Ymhlith y criw oedd y darlledwr a'r digrifwr Tudur Owen a'r Cynghorydd Sir, Einir Williams, ynghyd â nifer o gefnogwyr eraill. Saer maen oedd Dafydd Ross, wedi ei eni yn Rowen, Dyffryn

Conwy, ym 1862, a symudodd ei deulu i fyw yn Abergwyngregyn yn 1866. Bu farw ym 1924. Er nad yw'n hollol glir pryd y cododd Dafydd Ross y cwt, ar ei ôl ef y mae'r cwt wedi'i enwi. Yn ddiweddar, mae'r adeilad wedi dechrau cael ei alw'n "the Refuge", "the bothy" a "the shelter" gan gerddwyr a rhai gwefannau,

ac mae'r enw "Shelter" hyd yn oed yn ymddangos ar fapiau'r Arolwg Ordans. Y gobaith yw y bydd y daith hon yn help i godi ymwybyddiaeth ac i wrthdroi'r duedd hon, ac i hybu a hyrwyddo defnydd enwau Cymraeg, yn

hytrach nag enwau di-sail neu gyfieithiadau Saesneg, yn Nyffryn Ogwen a thu hwnt. Diolchiadau mawr i Sion Roberts, Llechi Felin Fawr am y llechen; i David a Stuart am eu help i osod yr arwydd; i John Ellis a Kevin am eu gorchwyl; Menter Iaith Gwynedd am eu cefnogaeth ac i Wayne a Sue yn y Clwb Rygbi am y lluniaeth. Diolch arbennig i bawb a fynychodd ar y diwrnod.



MODURDY
FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.L.L. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com


Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

Gyrfa Chwist

Gorffennaf 28

Medi 8, 22 a 29



am 6.45yh.
Croeso i bawb

Clwb Coffi Talybont

FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Medi 14 a 28

Croeso
cynnes
i bawb



Arddangosfa Arlunio

gan y Grwp Arlunio

Canolfan Glasinfryn

20, 21, 22 Awst

11yb -3:30yp

Mynediad am
ddim



SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI

Cyfarfod ar nos Iau
cyntaf o'r mis yn
FESTRI CAPEL JERUSALEM
am 7 o'r gloch

Croeso cynnes i
aelodau newydd

RHEOLWR NEUADD TALGAI

Rydym yn chwilio am rywun i lenwi'r
swydd rhan amser yma.

Os oes gennych ddiddordeb ynddi ffoniwch
07767 087 971 am fwy o fanylion.

Wythnos Cymorth Cristnogol

10fed – 16eg Mai 2026

Pan fydd caledi yn golygu newyn, gall ffermwyr trefol dyfu gobaith oedd thema Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae tlodi trefol dwys yn Nairobi, Kenya, yn amddifadu mamau o'r gallu i amddifyn eu plant rhag newyn. Ond gydag offer a hyfforddiant gan Beacon of Hope, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, maent yn ffermio llysiau mewn plotiau bach yn y ddinas i fwydo eu teuluoedd ac i ennill incwm. Roedd yr wythnos yn rhoi sylw arbennig i un ohonynt, Fridah, sy'n rhan o'r prosiect (gweler llun).

Fel y llynedd, cafodd yr amlenni eu dosbarthu i gartrefi'r ardal a gofynnwyd i bobl eu dychwelyd i fannau casglu, sef Partneriaeth Ogwen a Siop Rachub. Rydym yn ddolchgar i'r ddau sefydliad hyn am gytuno i'n helpu unwaith eto. Rhoddwyd cyfeiriad lleol arall ar gyfer Talybont a chafwyd casgliad o ddrws i ddrws yn Llandygái. Diolch yn fawr hefyd i bob gwirfoddolwr a roddodd yr amlenni drwy'r

drysau ym Methesda, Tregarth, Gerlan, Rachub, Llanllechid, Carneddi a Thalybont.

Roedd yn braf iawn cynnal bore coffi eleni ar 9fed o Fai yng Nghapel Jerusalem. Diolch yn fawr i Neville Hughes am ei drefnu, i'r stondinwyr a'r helpwyr a phawb wnaeth fynychu. Llwyddwyd i godi £522.00, sy'n swm anhygoel o dda.

Cafwyd £435 fel rhoddion gan eglwysi yr ardal, sef Eglwys y Gelli yn Nhregarth; Eglwys Sant Tegai, Llandygái; Eglwys Unedig Jerusalem, Capel Amana, Mynydd Llandygái; Capel Shiloh Newydd, Tregarth; a Chapel Carmel, Rachub. Cyfrannodd Eglwys Glanogwen, Bethesda, trwy gynnal stondin yn y bore coffi.

Derbyniwyd £837.56 yn yr amlenni, ac ar ben hynny ni wyddom faint o bobl sydd wedi rhoi trwy dderbyn yr opsiwn gwneud rhodd ar-lein a oedd ar yr amlen hefyd. A bydd modd i Gymorth Cristnogol hawlio £102.50 trwy Rodd Cymorth gan y rhai sy'n medru manteisio arno.

Mae'n braf cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi cymaint o arian eleni, er gwaetha'r amgylchiadau ariannol caled sydd yn ein hwynebu. Codwyd £1,764.56 yn uniongyrchol trwy'r gweithgareddau, sy'n cynyddu i gyfanswm o £1867.06 gyda Rhodd Cymorth.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos.

Ond mae gwir angen pobl eraill i ddod ymlaen i helpu i drefnu Wythnos Cymorth Cristnogol yma yn Nyffryn Ogwen. Mae rhai ohonom sy'n gyfrifol am y trefnu a'r gwaith yn bensiynwyr bellach, felly mae angen cael help gan bobl ifancach. Nid yw'n golygu llawer o waith, felly os oes gennych chi ddiddordeb a thipyn o amser ym mis Mai bob blwyddyn, croeso i chi gysylltu efo fi (Lester) ar y rhif 01248 602591 neu lbath@phonecoop.coop neu waltermenai@yahoo.co.uk

Lester Bath, Cydlynnydd Wythnos Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch

Mair Griffiths

mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

Arddangosfa Arlunio

Cynhelir Arddangosfa flynyddol y Grŵp Arlunio yng Nghanolfan Glasinfryn ar ddydd Iau, 20 Awst hyd at ddydd Sadwrn 22, Awst o 11.00yb-4.00yp. Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb ddod i weld cynnyrch eu gwaith dros y flwyddyn diwethaf.

Cydymdeimlad

Bu farw John Griffith, 48 Bro
Infryn ar 10 Mehefin. Estynnwn
ein cydymdeimlad at ei wraig,
Maggie.

Bydd yr angladd yn yr Amlosgfa ar 7 Gorffennaf am 12.00yp. 'Roedd John yn un o hen drigolion yr ardal ac wedi byw yng nghartref ei fam a'i dad, Mr a Mrs Harry Griffith ers dros 80 o flynyddoedd.

Bingo Bach

Llwyddwyd i godi £140 tuag at y Ganolfan ar 26 Mehefin, ar ddiwedd wythnos grasboeth.

Cylch Glasinfryn

Cafwyd pnawn difyr ac
addysgiadol iawn yng
nghyfarfod y Cylch ar 10
Mehefin pan ddaeth Debbie
Evans atom i siarad drwy
gymorth taflunydd am y
gwaith gwerthfawr mae ei
chymdeithas, “Achub Draenog”
(Helping Hedgehogs) yn
ei wneud. Dywedodd fod
ei ffrind Sue wedi methu
dod gyda hi, gan ei bod yn
disgwyl draenogod bach a'u
mam i'r warchodfan gan fod
perchennog tŷ yn Neganwy

Diolch yn fawr i'r ffyddloniaid am gefnogi. Bydd y Bingo nesaf ar nos Wener, 31 Gorffennaf am 7.00yh gyda'r elw yn mynd tuag at Banc Bwyd y Gadeirlan gan fod galw mawr ar ei wasanaeth gwerthfawr dros wyliau'r haf. Ni fydd Bingo ym mis Awst tan ddiwedd Medi.

wedi dod o hyd iddynt pan yn
clirio ei ardd, a bu yn rhaid iddi
ddisgwyl amdanynt i fynd a
nhw i'r milfeddyg i'w asesu.
Dyma'r math o argyfwng maent
yn ei dderbyn yn aml. 'Roedd
Debbie a'i ffrind Sue yn gyn
nyrsus ac wedi gweithio mewn
Adrannau Brys ac Unedau
Dwys, ac felly yn hollol gymwys
i nyrsio draenogod!. Diolchodd
Barbara Morris i Debbie am ei
gwaith gwerthfawr yn achub
anifail sydd yn prinhau.

Barbara Owen a Margaret

Roberts oedd yn gyfrifol am y
baned a'r cacennau blasus!

Mis nesaf awn am Ynys Môn
ar ymweliad â M-Sparc pryd
y cawn daith o amgylch yr
adeilad a chlywed am brosiect
newydd sbon gan y Tîm Egni,
edrychwn ymlaen yn fawr! Ni
fydd cyfarfod ym mis Awst
tan 9 Medi pan y daw Ian
Jones atom i sgwrsio am ei
waith gwirfoddol yn “Tywys
gyda’r Deillion”. Fel arfer mae
croeso mawr i aelodau hen a
newydd!

Darlith Goffa Dafydd Orwig

Myrddin ap Dafydd oedd y siaradwr gwadd eleni, a'i destun oedd cerddi natur R.Williams Parry a pherthynas y bardd â'r mynydd yn benodol.

Cafwyd gan Myrddin ddadansoddiad diddorol o'n canfyddiad ni'r Cymry o ystyr 'mynydd' a'n harferion yn ymwneud â'n tirwedd. Dangosodd sut yr oedd amaethwyr brodorol o'r cymdeithasau cynharaf wedi diwyllio'r tir, ei warchod a'i ddatblygu, a bod yr ofalaeth wedi parhau drwy'r canrifoedd.

Llywyddwyd gan Ieuan Wyn a rhoddwyd y diolchiadau gan Rhian Evans, Llyfrgellydd y Sir. Noddwyd yr achlysur gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd.



Llun gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd



Llun gan André Lomozik

Newyddion gan Partneriaeth Ogwen

Haf GwyrddNi

Bob tymor, drwy gydol y flwyddyn mae GwyrddNi yn llunio rhaglen o ddigwyddiadau er mwyn i chi'r cyhoedd gael brofi GwyrddNi, a braf yw cael rhannu bod rhaglen Haf GwyrddNi 2026 yn fyw. Mae'r rhaglen yn cynnwys 20 digwyddiad ar draws 5 ardal GwyrddNi a hynny dros gyfnod o bythefnos rhwng 13eg o Orffennaf a'r 30ain o Orffennaf.

Mae digwyddiadau yma yn Nyffryn Ogwen yn cynnwys taith arbennig i Laethdy Gwyn (Caws Cosyn) ar nos Fercher, 22ain o Orffennaf rhwng 6pm-7:30pm. Cynhelir Deud dy Stori ar nos lau, 23ain o Orffennaf rhwng 6pm - 8pm sef gweithdy creadigol a fydd yn rhoi blas ar wahanol ffyrdd o ddweud straeon a rhannu profiadau – boed drwy ffilm, lluniau, ysgrifennu, sain neu gerddoriaeth a hynny yng nghwmni ffilmograffwr profiadol ac ysgrifennwr creadigol. Mae archebu lle ar gyfer y ddau ddigwyddiad yma yn hanfodol.

Yna i gloi ein digwyddiadau yma yn Nyffryn Ogwen, cynhelir Gŵyl Gwneud draw yn Llys Dafydd ar ddydd lau, 30ain o Orffennaf - diwrnod llawn profiadau ymarferol a sgysiaau ysbrydoledig. Dewch yn llw!

Mae'r rhaglen llawn Haf GwyrddNi i'w weld ar Eventbrite GwyrddNi ac yno bydd modd i chi archebu eich lle ar gyfer yr holl digwyddiadau.

Taith Gerdded LleChi LleNI - Un Nos Ola Leuad

Cynhelir taith gerdded LleChi LleNI - Un Nos Ola Leuad ar ddydd Sadwrn, 5ed o Fedi a hynny o dan arweiniad Ieuan Wyn. Bydd y daith yn cychwyn o Faes Parcio Penygraig am 10am ac yn ystod y daith bydd cyfle i ni weld a dysgu am y lleoliadau o bwys yn nofel enwog Caradog Prichard, Un Nos Ola Leuad. Os hoffech ymuno â ni ar y daith, gofynnwn i chi archebu lle drwy e-bostio gofod@ogwen.org.

Mae'r daith gerdded hon yn rhan o gyfres o deithiau cerdded sy'n gysylltiedig â phrosiect llechi Caban Gerlan! Rydym hefyd yn falch o rannu ein bod wedi cyhoeddi

ein map o daith cerdded Pesda Roc, sef y cyntaf yn y gyfres o deithiau cerdded sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r map hwn i'w weld ar ein tudalen Facebook, neu cysylltwch os hoffech chi gopi.

Cerddi GwyrddNi Ogwen

Yn ystod Mis Mehefin bu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Dyffryn Ogwen yn gweithio hefo'r artist Gai Toms fel rhan o raglen ysgolion creadigol GwyrddNi. Dros 4 diwrnod fe wnaeth y criw gyfansoddi cân, cyfres o gerddi a chreu cysau-t ar y themau 'Hadau heddiw, dail yfory' – dihareb a fathodd y bobl ifanc yn ystod y broses.

Mae GwyrddNi yn fudiad sydd yn gweithredu ar draws Gwynedd yn annog trigolion i feddwl sut gall ein cymunedau ni ymateb i newid hinsawdd. Yn gweithio o fewn Partneriaeth Ogwen yn yr ardal yma mae prosiectau yn cynnwys tyfu bwyd lleol, creu grid ynni lleol, mapio adnoddau lleol a grwp ysgrifennu creadigol a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo chris@ogwen.org. Dyma rai o'r cerddi a gyfansoddodd y bobl ifanc efo Gai Toms:-

Y Cwrt (gan Mili)

Ym Mharc Meurig
Mae darn o darmac
Gwag a segur
Dim bywyd i weld
Dim ond natur yn cymeryd drosodd
Unwaith yn gwert y bobl
Rwan, cwrt natur

Camais ar y cwrt
Clywais garreg ateb dyddiau gynt
Y gweiddi, y cefnogi
A swm racedi yn taro'r bel
Tic, toc...
Fel hen gloc yn tician...

Y crawia a'r dderwen (gan Mared LI)

Crawia sy'n gwarchod y dderwen
Sydd bellach yn hen
Fel atgof ein cyndeidiau
A'r bywyd yn eu hangau

Wele'r crawia'n sefyll fel un

Adlewyrchiad o fywyd dyn / (neu - o chwarelwyr cytun)
Yn gwarchod y dderwen yn gadarn oll
Ni fydd byth ar goll

Ar droed y crawia
Mes llwydion
Gwreiddiau newydd
Canghennau gwyrddion

Ogla ffiwms (gan Robin/Llifon)

O Lundain i Gaergybi
Ogla ffiwms
Ogla ceir yn gwibio heibio
Ogla loriau i Ddilyn
Ogla loriau Tesco

O Ogwen Bank i Bryn Bella
Ogla'r A5
Ogla Sglodion Mabinogion
Ogla cwrw tafarndai
Ogla cyffro Neuadd Ogwen

Ogla pethau mae pobl wedi greu
Ogla datblygu
Ogla amrywiaeth
Ogla How Get
Ac ym Mharc Meurig, ogla natur

Mae natur yn ennill Gwyrddni (gan Leo)

Mae pobl yn dod a phobl yn mynd
How get you here?
Ond mae natur yn aros ac yn dal i fynd
Now that deserves a cheer!

Trwy'r coed,
Haul
Hardd ar fy llaw
Dros y bryn
Mae'r byd llai chwim
Llechi newydd, llechi hen
Fel calon cryf pobl y dre
Wrth gaeaf ddod, mae'r chwareli'n chwyrnu
A dail y coed yn sgrwnsio dan draed

Ond dwi'n gwybod
Gwanwyn ddaw
A'i wyrddnii
Gwyrdd Ni



Proffesiynol, diogel
a chyfrinachol

LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

Oes gennych chi
ddiddordeb mewn
hysbysebu yn
Llais Ogwen?


Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

Darlith Goffa Dafydd Orwig

Ar gychwyn y mis, daeth tyrfa fawr ynghyd i wrando ar y Prifardd Myrddin ap Dafydd yn sgwrsio ar y testun 'Mynydd Williams Parry'. Roedd yn sgwrs hynod ddiddorol am un o feirdd gorau Cymru, yn cynnwys nifer o straeon difyr amdano fel cymeriad direidus – straeon oedd yn galluogi i lawer ohonom weld Williams Parry mewn goleuni newydd! Diolch i'r Prifardd Ieuan Wyn a Staff Llyfrgelloedd Gwynedd am drefnu'r noson.

Arddangosfa

Diolch yn fawr iawn unwaith eto i Andre Lomozik am arddangos ei ffotograffau o gymeriadau ac adeiladau Bethesda. Roedd yr arddangosfa yn hynod lwyddiannus, ac er ei bod bellach wedi dod i ben, mae'r lluniau'n parhau i fod ar gael i'w gweld yn y llyfrgell.



Andre Lomozik – Diolch am arddangosfa wych!

Cysylltwch â ni:
golygydd@
llaisogwan.com



Un o sesiynau diweddaraf Ji-babi bach

Sialens Ddarllen yr Haf

Bydd 'Sialens Ddarllen yr Haf' yn dychwelyd unwaith eto rhwng Gorffennaf 18 a Medi'r 5ed i blant rhwng 4-12 oed. Cewch yr holl wybodaeth (am y tasgau a'r gwobrau) yn y llyfrgell. Yn ogystal, bydd sialens ddarllen ar gyfer babanod a phlant ifanc iawn eleni, gan na ellir pwysleisio digon ar bwysigrwydd darllen stori yn rheolaidd i blant o bob oed. Bydd sesiwn "Ji Babi Bach" ar fore Llun a sesiwn 'Paned a Sgwrs' ar fore Iau yn dod i ben dros yr Haf ac yn dychwelyd unwaith eto ar gychwyn mis Medi.

Ymweliad Dosbarth 'Carnedd' Ysgol Pen y Bryn

Croesawyd Dosbarth 'Carnedd' o Ysgol Pen y Bryn atom yn ddiweddar. Roeddynt yn chwilio am wybodaeth am yr ardal leol. Tra roeddynt yn rhyfeddu ar ffotograffau Andre Lomozik, pwy ddaeth heibio yn annisgwyl ond Andre ei hun! Cawsant gyfle i sgwrsio a holi cwestiynau am ei luniau. Yn ogystal, cawsant hanes cymeriad unigryw oedd yn byw yn yr ardal flynyddoedd yn ôl o'r enw Robot Jô's Gwich. Gobeithio eich gweld eto'n fuan!

Sesiynau Hwyl yr Haf: 27/7/26 – Sesiwn wnïo gyda Linette Gwilym ar gyfer plant 7-12 oed, 2 tan 4 (archebu lle).
14/8/26 - Sesiwn gyda Huwcalele ar gyfer plant 5-12 oed, 2:30 tan 3:30 (archebu lle).
10/8/26 – Sesiwn stori a chreu gardd o focs esgidiau. (4-7 oed) 10:30 – 11:30 (archebu lle).
17/8/26 – Sesiwn creu 'collage' o Ddyffryn Ogwen (7-12 oed) (Sesiwn galw mewn).
Archebwch eich lle ar wefan Llyfrgelloedd Gwynedd. <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archfau/>
[Llyfrgelloedd-ac-archfau.aspx](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Llyfrgelloedd-ac-archfau/)

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

+

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

+

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr
Trydanol


Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrall,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



CHWILAIR

BWS T10



A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	U	D	E	R	T	N	E	P	V	S	H	E	I	M	G	V	H	G	M
D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	W	U	S
O	F	R	D	O	L	G	A	M	P	P	E	N	U	E	L	E	Y	Q	Z
G	R	H	T	E	A	R	T	N	A	L	G	B	H	C	R	U	M	W	N
O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	O	X	U	N	P	W	R	H	C
Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	D	E	O	G	M	H	E	P	T	T
C	B	B	C	U	U	J	P	L	F	T	M	O	I	V	V	D	C	B	B
F	R	R	F	O	G	J	V	O	I	O	F	I	R	R	X	I	M	H	T
T	O	I	S	K	O	P	R	W	R	I	R	C	M	K	C	B	O	R	C
X	V	R	A	Y	H	I	S	G	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H
B	C	W	O	P	S	S	Y	A	C	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J
M	B	W	T	E	Y	T	F	X	M	D	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O
I	N	L	F	E	N	T	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	D	W	S	L
Z	E	E	B	A	E	A	N	J	L	K	J	C	L	N	L	O	R	V	O
G	D	J	N	P	W	P	G	O	S	L	O	W	J	J	Q	F	U	L	F
S	B	V	T	X	E	U	G	H	P	S	Y	L	Z	E	A	I	F	X	I
W	O	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	H	A	D	S	E	I	K	O
G	C	D	H	R	H	E	S	P	E	N	R	H	Y	N	B	M	S	I	U
R	O	X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	T	N	T	O	G	W

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG O AROSFANNAU BWS T10 RHWNG BANGOR A BETWS Y COED i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ac yb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 26 Awst. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nad oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais**

i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.

Mae fy niolch yn fawr iawn i Emyr Roberts, Ffordd Bangor, am awgrymu testun y Chwilair mis yma. Pob hwyl. Nifer wedi methu Arennig Fawr, ac wedi rhoi Ffynnon Llyffant fel dau lyn ar wahân.

Dyma atebion Chwilair Mai:- Arennig Fawr; Cwellyn; Elsi; Ffynnon Llyffant; Gwynant; Llyn Ogwen; Morwynion; Nantlle; Padarn; Tanygrisiau; Tegid; Tryweryn.

Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:- Judith Hughes, Llangoed; Helen Wyn Jones, Erw Las; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Rosemary Williams, Tregarth; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Gwen Davies, Tanysgraffell; Carys Parry, Caerhun; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda; Eirwen Owen, Erw Las.

Enillydd Mai oedd: Judith Hughes, Wenallt, Llangoed

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Brysiwch wella!

Mae Sheila Owen (Redfern, gynt) Millbank, Dolhelyg, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd am ychydig o ddyddiau. Mae hi gartref erbyn hyn ac yn dechrau cryfhau.

Bu Dawn, Plas Maes y Groes, hefyd o dan oruchwyliaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Treuliodd Keith Jones, 13, Dolhelyg, cymydog arall inni, gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd, ond mae'n dda cael deud ei fod yntau adref bellach.

Cafodd Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, driniaeth ar ei dwy lygad yn Adran Offthamoleg Ysbyty Gwynedd yr wythnos o'r blaen. Mae unrhyw driniaeth yn heriol ar ôl cyrraedd y nawfed degawd, ond mae Rhiannon wedi dod drosti yn ardderchog ac yn cael gofal da gan y teulu.

Mae Louie Hughes, Tŷ Cerrig wedi dioddef cryn dipyn o boen yn ddiweddar. Mae hi o dan law y meddyg a'r ffisiotherapyddion, felly gobeithio fydd hi ddim yn hir cyn gallu mynd o gwmpas fel cynt. Brysiwch wella, Louie, mae'ch ffrindiau i gyd yn y Clwb Coffi yn eich colli'n arw.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellad buan at bawb sydd heb fod yn teimlo'n dda ar hyn o bryd.

Problemau parcio

Yn ôl cân Hogiau Llandegai, campau defaid William Morgan oedd problem trigolion Rachub erstalwm. Beth bynnag, nid gormod o ddefaid sydd gennym ni yn Nhalybont heddiw, ond llawer iawn gormod o geir a faniau. Mi fedrwch gorlannu defaid, ond mae hi bron yn amhosibl creu lleoedd addas i bobl barcio'u cerbydau'n ddiogel. Nid pawb sydd â digon o le o flaen ei dŷ, a mae gan nifer o deuluoedd ddau neu dri o geir, heb sôn am faniau gwaith. Does dim bai ar neb; mae'n arwydd o'r oes rydym yn byw ynddi.

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Gorff. 19: Ms. Eleri Lloyd Jones.
Gorff. 26: Parchg. Dafydd Job
Mis Awst: DIM OEDFA.
Medi 6: Mr. Richard Parry Jones.
Medi 13: Parchg. Ronald Williams.
Medi 20: Oedfa i'w threfnu.
Medi 27: Parchg. Cledwyn Williams.

Te Mefus
Roedd y festri dan ei sang ar nos Fercher, 1af Gorffennaf pan gynhaliwyd ein Te

Mefus blyneddol. Gwnaed elw ardderchog o £802.00. Diolch i bawb am ddod i'n cefnogi ac i bawb a roddodd o'u hamser i'n cynorthwyo.

Diolch am dacluso
Dydi'r llwybr i'r festri, na blaen y capel ddim wedi edrych mor dwt a thaclus ers llawer blwyddyn. Mae'r diolch am hynny i Mr. Julian Johnson, Bro Emrys, sydd yn gwneud y gwaith yn gwbl wirfoddol. Mae aelodau'r capel yn gwerthfawrogi yr hyn mae'n ei wneud ac yn ddiolchgar dros ben iddo.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sam Parry, 17 Dolhelyg, peldroediwr o fri, sy'n brysur yn rhoi Talybont ar y map. Mae Sam yn aelod o garfan Ysgolion a Cholegau Cymru o dan 18 oed ac, ar ddiwedd Mehefin, bu i lawr ym Mhort Talbot yn derbyn cap ei wlad, a medal i ddynodi mai Cymru ennillodd y 'Centenary Shield' eleni. Cystadleuaeth yw honno i holl dimau o dan ddeunaw y Gwledydd Celtaidd. Sam, rydan ni i gyd yn falch iawn ohonot ac yn dymuno pob llwyddiant iti i'r dyfodol.



am ei ddwy chwaer, Dawn a Diane a'r teulu estynedig yn eu galar. Cynhaliwyd dathliad o fywyd Steven yn Amlogfa Bangor ar bawr dydd Mawrth, Gorffennaf 7ed.

Cartref newydd

Croeso i Barbara Devlin i'w chartref newydd yn rhif 5 Cae Bach.

Mae Barbara wedi dod atom o Fro Syr Ifor, Tregarth. Mae'n siwr bydd llawer o'n darllenwyr yn ei chofio fel perchennog y siop ddillad 'Corun i Sawdl' ym Methesda.

Gobeithio bydd hi'n hapus iawn yn ein plith.

Gwyliau'r Haf

Dymunwn wyliau braf i bawb o'n ffrindiau ym mhob rhan o'r Dyffryn. Cymerwch ofal a chadwch yn iach. Cawn gyfarfod drwy gyfrwng 'Y Llais' ym mis Medi!

Ôl-nôd gan y crwban

Maddeuwch imi am stwffio fy mhig i mewn eto, ond cafodd llun Enfys a fi ei adael allan o'r 'Llais' y tro diwethaf. 'Fydda'i ddim yn hoffi brolio, ond mae'n rhaid imi ddeud ei fod yn lun reit dda o'r ddau ohonom. Tybed fedrwch chi gael hyd i le bach iddo'r mis yma? Diolch yn fawr iawn.

Gyda llaw, rydw i wedi symud i Gricieth a mae pawb yn glên iawn wrthyf. Dw i'n dechrau setlo erbyn hyn, ond mae'n cymryd amser: ambell i bwl o hiraeth rwan ac yn y man, w'chi.

Dw i'n edrych ymlaen yn arw at weld Enfys y tro nesaf ddaw i Gricieth. Cofion cynnes iawn at bawb yn Nhalybont.



Cyfres Tafarnau Dyffryn Ogwen – 4

“Mi awn ni i chwilio am dafarna’ cynhara’ Dyffryn Ogwan!”

Ar ddechrau'r 19g cysylltwyd Dyffryn Ogwen â dwy ffordd bost bwysig, ac yn sgil eu datblygu fe dyfodd nifer o dafarnau ar eu llwybr i estyn cysur i'w teithwyr.

Yn 1800 penderfynodd swyddogion Ffyrdd Tyrpeg Cymru a'r Gororau y dylid Dargyfeirio'r ffordd o Amwythig i'r Fenai drwy Gapel Curig a Nant Ffrancon yn lle dilyn y llwybr hirach drwy Lanrwst a Chonwy i gyrraedd Llandygái. Agorwyd y ffordd i drafnidiaeth yn 1807, ond nid oedd heb ei diffygion. O Lyn Ogwen i Dy'n y Maes dilynwyd llwybr dan glogwyni ansad Pen yr Ole Wen ar ochor ddwyreiniol Nant Ffrancon, ac o Bont y Tŵr i Dinas trosglwyddwyd ei llwybr i ymyl orllewinol dyffryn yr afon Ogwen. Er ei holl wendidau peiranyddol, ei hwyneb cwrs ac ansefydlog, y llethrau serth a'r cwteri dŵr amherffaith, eto yr oedd y ffordd yn gaffaeliad enfawr i economi'r ardal ar gychwyn y 19g.

Trefnwyd fod dwy goats i deithwyr yn teithio'r ffordd yn ddyddiol o Amwythig i Gaergybi - un gyflym ac un araf - a bod cerbyd cyflym 'chaises' y post brenhinol hefyd yn casglu llythyrau yn fferi'r Fenai a Chapel Curig. Yn ychwanegol, cyflwynwyd gwasanaeth wythnosol i wagen fasnachol deithio o Amwythig, er nad eglurwyd beth oedd diben y gwasanaeth hwn. Yn

nhollborth Hen Dyrpeg y cesglid y doll i ddefnyddio'r ffordd, ac yn 1808 y rhent a delid gan ddeiliad y tollty oedd swm anferthol o £226. Cyfrannodd y Ffordd Dyrpeg brysurdeb egniol i ardal oedd yn trawsnewid yn araf o drwmgwsg cyfnod diwedd y Canol Oesoedd gan gynnig cyfleoedd o'r newydd i lwyddiant materol a chymdeithasol y gymuned.

Yn Arolwg y Penrhyn 1768 caiff fferm 220 acer ei maint sylw arbennig fel hen sefydliad yn Nant Ffrancon, a dyfodiad y ffordd dyrpeg lai na hanner can mlynedd yn ddiweddarach olygodd fod y fferm hon yn Nhy'n y Maes wedi datblygu yn dafarn fel yn nhraddodiad llawer o dafarn dai eraill yng nghefn gwlad Cymru yn ystod yr un cyfnod. Pan deithiodd Hyde Hall y ffordd rhwng 1809 ac 1811 ni chyfeiriodd at y dafarn, ond ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach ceir sylw caredig gan y gwyddonydd, Michael Farraday, ar ei ymweliad â'r dafarn ar ddydd Gwener, Gorffennaf 30, 1819. Yr oedd ef ar daith addysgol drwy Gymru yn ymweld â diwydiannau'r wlad, ac ar y diwrnod dan sylw wedi mynychu chwarel Cae Braich y Cafn i sylwi yn fanwl ar y dull o'i threfnu a'i gweithio. Wedi gadael y chwarel ymunodd â'r ffordd dyrpeg ym Mhont Ogwen, a chan fod arno chwant bwyd a diod, meddai "we were tempted by a very clean looking inn to rest and refresh ourselves, and were soon heartily engaged with



Rhan o fap Plwyf Llanllechid yn 1822 gyda chaniatâd Archifau Prifysgol Bangor

nice bread and butter and cheese accompanied with good cwrw'. Pa well tysteb i groeso a glanweithdra syml y dafarn yn Nhy'n y Maes gan ŵr a ddatblygodd drwy ei ddyfeisiadau i fod yn un o wyddonwyr cynnar enwocaf y byd.

**John Llywelyn Williams
Idris Lewis
Richard Hughes**

Tybed ai'r murddun hwn oedd y Ty'n y Mae Inn?



**L. STURRS
A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÓN: 600953
isturrs@googlemail.com

**DAFYDD
CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system
gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

SPAR

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa
Bost Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau
trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan
10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Llandygái

Iona Wyn Jones, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

Mae pwyllgor Neuadd Talgai yn dymuno talu teyrnged i Raymond a Pauline Edwards am eu gwaith yn gofalu am y neuadd am 33 o flynyddoedd.

Gweithiodd Raymond yn galed i helpu i godi arian ar gychwyn y fenter o addasu ysgoldy cyntaf Llandygai yn neuadd gymunedol. Unwaith yr oedd y neuadd ar agor bu'n brysur yn gofalu am logi'r lle a sicrhau fod pawb yn mwynhau defnyddio'r neuadd.

Bu Raymond a Pauline hefyd yn cynnal nosweithiau bingo i godi arian at y neuadd, ac yn helpu gyda boreau coffi i hel arian i gynnal parti Nadolig i oedolion yr ardal.

Dan ofal Raymond yr oedd y neuadd a'r maes parcio bob amser yn dwt ac yn daclus.

Drwy gydol ei dymor bu cydweithrediad clos ac Eglwys Sant Tegai fel bod y neuadd yn hwylus i'r gynulleidfa hefyd.

Dymunwn bob mwynhad i'r ddau ar eu hymddeoliad pan fyddant yn ail-gartrefu yn Nhalybont. Bydd colled ar eu hôl !

Yn awr 'rydym yn chwilio am reolwr neu reolwraig newydd i'r neuadd gyda doniau cyffelyb i Raymond.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Gwyliau!

Dymunwn wyliau hapus iawn i holl blant a staff ein hysgol eglwys, Ysgol Llandygai, ac wrth gwrs i'n gwirfoddolwyr, ffrindiau a chefnogwyr yn y pentref ac ymhellach. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ffyddlon dros flwyddyn llawn bwrw.

Apêl Mis Rhodd St Tegai

Diolch i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor hael i Apêl Mis Rhodd St Tegai. Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719), Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) ac Edmond Douglas Pennant (Trysorydd Dros Dro), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Diolchiadau

Diolch i'n garddwr proffesiynol Sion Roberts am dacluso'r fynwent i hwyluso ymweliadau ac i Raymond a Pauline Edwards

Hen Dŷ'r Ysgol am barhau i agor a chau yr eglwys dros fisoedd y Gwanwyn a' r Haf. Mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

Hoffwn hefyd estyn ein diolch i ddau organydd dros dro, sef Keith Lacey Niwbwrch a Christine Edwards organyddes Glanogwen am chwarae yn ein gwasanaethau yn achlysurol ger ein bod heb organydd ers misoedd bellach.

Priodas

Llongyfarchiadau i Yiannis Douglas Pennant a Kristia Michaelidou ar eu priodas grefyddol yn yr Eglwys Uniongred Roegaidd Limassol. Dyma'r ail ddathliad yn dilyn y briodas sifil dwy flynedd yn ôl. Cafodd Edmond Douglas Pennant, yr ewythr balch, amser bendigedig gyda'r teulu yn y dathlu yn Cyprus ac edrychwn ymlaen i weld lluniau'r briodas!

Newyddion o'r Clochdŷ

Cymerodd Clochydion St Tegai ran yng Nghystadlaethau Canu 6



Y Parch Ddr Gareth Lloyd a Mrs Elizabeth Lloyd yn cael eu hanrhegu gan Mrs Catrin Hobson a Mrs Rosemary Williams ar ran Bro Ogwen yn dilyn gwasanaeth olaf ddiwedd mis Mai 2026

Chloch Cymdeithas Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Modelwyddan ar Fehefin 13eg. Mae'n bleser adrodd eu bod wedi ennill am yr ail flwyddyn yn olynol, gan guro wyth tîm arall. Bu pump ohonynt hefyd yn canu ar 8 cloch mewn criw rhanbarthol yn cynrychioli ein hardal, a daethant yn gyntaf yn hwnnw hefyd. I ddathlu eu llwyddiant canodd y clochydion chwarter caniad o lawenydd cyn y Cymun ar fore'r Sul canlynol.

Gwasanaethau

Ar y Sul

Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

Ar Ddydd Mercher

Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno am y baned a sgwrs.

Manylion Cyswllt

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, gofynnwn i chi gysylltu gyda'n Deon Bro, Canon Dylan Williams, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen DylanWilliams@churchinwales.org.uk. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts (SaraRoberts@churchinwales.org).

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

YSGOL TREGARTH

Agoriad yr ardd goffa

Roedd dydd Mercher, Mehefin 24ain yn achlysur arbennig iawn yn hanes yr ysgol, sef diwrnod agoriad swyddogol gardd goffa Miss Barnes. Roedd Miss Barnes yn uchel iawn ei pharch yn yr ysgol ac roeddem yn awyddus i gael man tawel fydd yn dyst i'w chyfraniad i'r ysgol am ugain mlynedd. Roedd y diwrnod yn benllanw gwaith caled iawn ac ni fyddai'n bosibl heb gefnogaeth hael nifer fawr o bobl. Diolchwn i bawb fu'n cynorthwyo - cwmnïau a sefydliadau lleol, staff yr ysgol, rheini, llywodraethwyr, gwirfoddolwyr a ffrindiau'r ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb am bob cymorth dros y blynyddoedd diwethaf. Pleser mawr oedd cael cwmni aelodau o deulu Miss Barnes gyda ni i agor yr ardd yn swyddogol.

Peth peryg ydi cychwyn enwi a diolch i bobl a gobeithiwn yn fawr ein bod wedi cofio pawb. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i McLennaen Construction am eu cyfraniad anhygoel, Anna o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Jesse o Keep Wales Tidy,



Adra, Llechi Cymru, Ioan Doyle a'i griw, Iwan Jones o Jones & Whitehead, James Cyf, y Clwb Garddio a phawb arall fu'n gymorth.

Drwy gefnogaeth grant gan y Loteri Genedlaethol, rydym hefyd wedi gallu cynnwys offer synhwyrdd a fydd yn cefnogi iechyd a lles llawer o blant am flynyddoedd i ddod.



Trip bl.2+3 i Gelli Gyffwrdd

Cafodd blwyddyn 2 a 3 ddiwrnod i'w gofio ar eu trip diwedd flwyddyn i Gelli Gyffwrdd. Roedd yn ddiwrnod bendigedig gyda'r haul yn gwenu drwy'r dydd. Roedd pawb wedi mwylhau mynd ar y rollercoaster, y sleidiau dŵr a'r cychod, i enwi dim ond rhai. Dyma ddiwrnod arbennig i ddathlu blwyddyn o weithio'n galed.



Criced

Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn gŵyl griced yn y clwb criced draw ym Methesda. Bu pawb yn cyd-chwarae ac yn ymdrechu'n galed drwy'r dydd gan fwynhau cystadlu yn erbyn ysgolion eraill yr ardal. Da iawn chi a llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd yr ysgol mor dda.

Her 'Jill Scott: Coming Home' Sport Relief

Yn ddiweddar, cymerodd Dosbarth Yr Elen ran mewn her arbennig i efelychu her "Jill Scott: Coming Home", sef cwblhau cyfanswm o 388

milltir. Dros gyfnod o bum diwrnod, bu'r plant yn rhedeg a cherdded o amgylch cae'r ysgol, gan weithio'n galed i gyrraedd eu targed. Nid yn unig y gwnaethant gyrraedd y nod, ond fe'i rhagorwyd hefyd, gan gwblhau cyfanswm trawiadol o 390.5 milltir! Diolch yn fawr i'r holl blant am eu hymdrech, eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad. Roeddent yn wirioneddol wych ac yn glod i'r ysgol. Hoffem hefyd ddiolch i'r plant a fu'n casglu arian nawdd, ac i bawb a gyfrannodd at yr achos. Llwyddodd y dosbarth i godi £110 ar gyfer Sport Relief, sy'n gamp arbennig.



Sioe Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant a ddaeth i'r brig yn eu cystadlaethau yn Sioe Dyffryn Ogwen, mewn cystadlaethau celf, ceffylau ac arddangos cŵn. Roedd yn braf iawn gweld Cwpan Wendy Eccles yn dod i Ysgol Tregarth eleni, diolch i waith celf arbennig gan Elsi, Blwyddyn 5. Rydym yn falch iawn ohonoch chi i gyd!

Côr y Penrhyn

gydag Alun Davies ac aelodau o'r côr



Perfformio yn Prifysgol Bangor

Daeth Côr Meibion y Penrhyn â naws gerddorol arbennig i Fangor ar 3 Mehefin wrth iddynt berfformio yn Seremoni Wobrwyo Ysgol Gwyddorau Iechyd yn Neuadd Pritchard Jones. Roedd eu perfformiad yn ychwanegu awyrgylch gynnes a dathliadol i'r achlysur, gan roi eiliad gofiadwy i'r graddedigion a'u teuluoedd.

Ar ddiwedd y sermoni bu i'r côr ganu

ac 'roedd y gynulleidfa wedi synnu gweld aelodau'r côr yn ffurfio ar y ddwy ochr i Neuadd PJ a chanu "Nkkosi Sikkeleli a Tshotsholoza", cyn symud ar y llwyfan a pherfformio tri darn, sef, Benedictus, Pererin Wyf a Byd o Heddwch.

Cafwyd gymeradwyaeth gynnes ar y diwedd a rhieni a myfyrwyr yn dod at aelodau y côr i'w llongyfarch, a ninnau hefyd yn eu llongyfarch hwy wrth gwrs.



Cyngerdd yn Eglwys Glanogwen, Bethesda

Ar ddiwedd mis Mehefin cafwyd cyngerdd mawreddog, i gynulleidfa o oddeutu 100, yn Eglwys Glanogwen gyda Côr y Penrhyn a Caleb Rhys Jones, Gerlan, fel unawdydd.

Cafwyd perfformiad pen ei gamp gan y côr, ac, am y

tro cyntaf mewn cyngerdd fe ganodd y côr a Caleb gân enwog Dafydd Iwan, sef "Pam fod eira yn wyn", trefniant arbennig i'r côr gan ein Cyfarwyddwr Cerdd Arwel Davies, a hynny er cof am Eilir Jones.

'Roedd perfformiad Caleb yn ardderchog, llais melfedaidd bendigedig, ac yn bleser gwranddo arno, a'i gyfeilydd Ross Craigmile.

'Roedd elw y cyngerdd i gyd yn mynd i Eglwys Ganogwen i helpu gyda chostau atgyweirio'r adeilad.



Hanes y Côr

Fel sydd wedi ei grybwyll eisoes yn y Llais, mae Gwilym Owen o Dregarth, wedi bod yn gweithio ar ychwanegu at hanes y côr. Byddwch yn ymwybodol bod llyfryn wedi ei gyhoeddi yn 1984 gan Elfed Jones dan y teitl "Côr Meibion y Penrhyn, Ddoe a

Heddiw". Mae Gwilym wedi bod yn gweithio ar ehangu ein gwybodaeth o sut daeth y côr, fel yr ydym yn adnabod heddiw, i fodlolaeth.

Mae Gwilym wedi gorffen y gwaith erbyn hyn ac mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y darn yma o waith ar wefan

y côr erbyn hyn, ac ar gael i unrhyw un ei darllen.

corypenrhyn.cymru/hanes

Mae wedi bod yn waith trwyadl gan Gwilym, ac mae aelodau'r côr yn diolchar iawn iddo am ei waith.

Cyflwynwyd cloc llechen i Gwilym yn ddiweddar fel arwydd o ddiolch.

Aelod Newydd

Aelod newydd yn y côr yw Franco Caramor, fe ddaeth i un o'n ymarferion ym mis Mai ac wedi mwynhau y profiad a dod yn aelod o'r côr bellach, wedi ymgartrefu yn ein plith ac wedi perfformio mewn cyngerdd am y tro cyntaf, dyma rai sylwadau gan Franco:

Sut groeso wyt wedi gael fel aelod o'r côr?

Croeso cynnes iawn. Mae pawb wedi bod yn gyfeillgar.

O lle wyt yn wreiddiol?

Dwi'n dod o Jersey yn wreiddiol ond dwi'n wedi byw yng Nghymru ers 40 o flynyddoedd.

Fy enw ydy Franco oherwydd fe 'roedd fy nhad yn dod o'r Eidal.

Pa lais wyt ti yn ganu?

Tenor 1

Beth wyt ti yn fwynhau am fod yn aelod o Côr y Penrhyn?

Dw i'n mwynhau canu, siarad Cymraeg a cymdeithasu.

Fedri di ddeud ychydig am dy gefndir?

Cyn 2000 nes i wethio fel hyforddwr canwio a dringo. Rwan dwi'n gweithio fel cyhoeddwr o lyfrau amdan chwaraeon antur.



Y Crëyr Glas

Mae'r crëyr glas, ein crëyr brodorol ni, yn dipyn o giamstar fel pysgotwr ac fe'i gwelir, ran amlaf ar ei ben ei hun, yn nŵr bas afon, glan llyn a glan môr, yn chwilio neu'n aros yn amyneddgar am bryd o fwyd.

Ar adegau, fe'i gwelwn yn hedfan i fyny Dyffryn Ogwen gan ddilyn afon Ogwen i ffrydiau Nant Ffrancon ac ymlaen i Gwm Idwal a Nant y Benglog. Bydd hynny'n arwydd o law, a'r dywediad sydd gennym yw 'Mae'r crëyr glas yn mynd i agor y fflodiart.' Mae o'n medru synhwyro ei bod hi'n dod yn law, ac mae'n gwybod drwy brofiad hirfaith ei rywogaeth fod hynny'n argoeli'n dda am helpa. Bydd y glaw yn peri i ddŵr y ffrydiau godi a chryfhau gan lacio pridd y torlannau a chludo trychfilod sy'n fwyd i'r pysgod. Daw hynny â'r brithyllod a'r llyswennod i'r agored i fwydo, ac mae hynny'n fantais fawr i'r crëyr glas eu dal efo'i big felen sydd fel cyllell – yn hir, syth a main.

Ia, golygfa arbennig yw ei weld yn anelu am nentydd a glannau llynnoedd y mynydd – ei adenydd hirion, llydain yn symud yn llyfn, osgeiddig; ei ben yn ôl rhwng ei ysgwyddau; a'i goesau hirion yn ymestyn o dano yn gyfochrog â gweddill ei gorff. Ond mae ei weld yn llonydd yn y dŵr bas neu ar garreg wrth ymyl y dŵr yn fwy arbennig fyth – ei lygaid craff yn syllu am hir ar y dŵr, yn aros i bysgodyn ddod yn ddigon agos iddo'i gipio. Mae'n un o'r profiadau cofiadwy hynny a gewch chi ym myd natur – y corff stond a'r gwddw'n ymestyn ar ffurf bwa, ac yna'r symudiad chwim efo'r pen yn torri drwy wyneb y dŵr mewn fflach, a'r pysgodyn yn gwingo yn y big wrth gael ei godi o'r dŵr a'i lyncu'n syth.

Mae gan wahanol rannau o'n gwlad enwau eraill ar y crëyr glas, a'r enw mwyaf cyffredin yn y gorllewin a'r de yw crychydd (hefyd crychydd cam/crychydd glas), a hynny o bosib am ei fod yn aml yn sefyll neu'n symud – yn rhydio – yn y crych, sef y dŵr bas rhedegog rhwng dau bwl mewn afon neu'r mân donnau sy'n torri ar y traeth. 'Glas' yn yr ystyr 'llwyd' yw ei liw, fel 'glas' yn 'caseg las'. Cafodd y beirdd eu hysbrydoli gan ei olwg, a dyma i chi ddau englyn:

Hen wylwr godre'r geulan, – a'i olwg
Fel drychiolaeth syfrdan;
Ei war crwm fel tro cryman,
A'i bwysau ar goesau gwan.

James Nicholas

Genwair o big yn nŵr bas – yr afon,
Digrifwch mewn urddas;
Y doethyn digymdeithas
Â'i heglau hir, y clown glas.

Gerallt Lloyd Owen

Yn ddiweddar, bu cryn gyffro pan ddaeth crëyr dieithr o dramor i'r Foryd ac yna i harbwr Caernarfon – y cyntaf o'i fath i'w weld yng ngwledydd Prydain – efo'r adarwyr o bell ac agos yn tyrru i'w wyllo a thynnu lluniau ohono. Yn Aberdaugleddau yn Sir Benfro y gwelwyd o gyntaf, ac mae o bellach wedi symud i Aberconwy. Crëyr riff y gorllewin yw'r ymwelydd rhyfeddol. Mae cynefinoedd y rhywogaeth hon rhwng gorllewin Affrica a'r isgyfandir Indiaidd, ond mae'r math hwn o grëyr yn cael ei weld yn amlach erbyn hyn yn Sbaen, Ffrainc a'r Eidal. Cafwyd crëyrod o bell yn ymweld â Chymru o'r blaen, ac yn aros



i nythu. Fel y soniwyd yn y golofn hon dro'n ôl, dechreuodd y crëyr gwyn bach nythu yng Nghymru yn 2001, ac mae'r nythfa sydd yn Abercegin y fwyaf yn y wlad, efo tua hanner cant o nythod. Bellach, mae dieithryn arall, y crëyr gwyn mawr, wedi dechrau nythu yng Nghors Ddyga ym Môn. Ond beth am y crëyr glas? Bydd nifer ohonom a oedd yn blant yn yr 1950au yn cofio crëyrod glas yn nythu yng nghoed y Ddôl Goch ar lan afon Ogwen, a byddai'n dda clywed gennych chi'r darllenwyr am enghreifftiau o grëyrod glas yn nythu yn Nyffryn Ogwen a'r cyffiniau.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

Tîm Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

cynghorydd. Dafydd Meurig@ gwynedd. llyw.cymru  07765 400140 Arllechwedd	cynghorydd. EinirWyn Williams@ gwynedd. llyw.cymru  07747 690456 Gerlan	cynghorydd. Rheinallt Puw@ gwynedd. llyw.cymru  07789 742092 Canol Bethesda	cynghorydd. Beca Roberts@ gwynedd. llyw.cymru  07436 927237 Tregarth & Mynydd Llandygai	cynghorydd. Paul Rowlinson@ gwynedd. llyw.cymru  07949 034967 Rachub
--	--	--	--	---

YSGOL ABERCASEG AC YSGOL PEN-Y-BRYN

Diwrnod Trosglwyddo

Bu diwrnod trosglwyddo llwyddiannus yn Ysgol Abercaseg wrth i blant Meithrin ymweld â'u dosbarth a chael blas ar eu camau cyntaf yn yr ysgol, gan fwynhau gweithgareddau mewn awyrgylch groesawgar a chefnogol. Yn ogystal, cafwyd cyfle i groesawu rhieni, gwarchodwyr a'n teuluoedd newydd i gyflwyniad, panad a sgwrs, a chael dod i adnabod ein cymuned yn Ysgol Abercaseg. Diwrnod mawr oedd hi i Flwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1 wrth iddynt symud ymlaen i'w cam nesaf, ac roedd hefyd yn gyfnod newydd a chyffrous i'n disgyblion Blwyddyn 2. Braff oedd cael eu croesawu i Ysgol Pen-y-bryn a'u paratoi at eu cyfnod nesaf ym Mlwyddyn 3 mis Medi 2026. Ar yr un pryd, bu disgyblion Blwyddyn 6 yn brysur yn treulio amser yn yr ysgolion uwchradd o'u dewis, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio er mwyn eu paratoi ar gyfer y newid pwysig yn eu cyfnod addysgol.

Prosiect Rhifedd Cymunedol Dosbarth Elidir

Prynhawn i'r Brenin a gafwyd i rieni a disgyblion Blwyddyn 6

wrth iddynt fwynhau'r cyfle i weld prosiectau rhif y plant ar waith! Bu'r plant yn brysur yn creu gemau bwrdd yn seiliedig ar waith y tymor, gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau rhif heriol a chreadigol.

Diolch o galon i Anti Donna ac Anti Wendy am baratoi te prynhawn blasus i ni gyd. Roedd yn bleser mawr cael rhannu gwaith y plant a mwynhau'r weithgaredd gyda'n gilydd. Prynhawn hyfryd iawn!



Cystadleuaeth Rygbi Blwyddyn 5 a 6

Bu'r criw yma chwarae'n wych yng nghystadleuaeth Rygbi Agored Blwyddyn 5 a 6 yr Urdd. Da iawn chi blant!

Eisteddfod Gadeiriol Penybryn ac Abercaseg

Bore arbennig iawn yn llawn cystadlu, talent a hwyll! Cafwyd llefaru, dawnsio, jôcs, coginio, gwaith celf a llawer mwy. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar disgybl a gafodd eu cadeirio am ysgrifennu cerddi o safon.

Diolch arbennig i staff a phlant Ysgol Dyffryn Ogwen am ein cefnogi drwy fod yn feirniad anhygoel i'n cerddi, ac am ddylunio a gwneud cadeiriau hardd.

Braff oedd cael croesawu cyn ddisgybl i feirniadu – Ella Lois. Diolch o galon am dy holl waith!

Dosbarth Carnedd yn ymweld â'r Llyfrgell Leol

Dymuna ddosbarth Carnedd ddiolch yn fawr iawn i Elin a Marian o Lyfrgell Dyffryn Ogwen, am brynhawn difyr dros ben. Aethom yno i dyrchu drwy lyfrau hanes Bethesda, ac roedd gwledd yn ein haros. Diolch Elin am ddangos tomen o luniau ddoe a heddiw, ac am y wybodaeth gywrair wrth fynd drwyddynt. Diolch i Marian am stori wych o Robat Jos Gwich- cymeriad a hanner! Bu'r wybodaeth a gasglwyd yn werthfawr iawn yn ein gwaith Thema, "Bodolaeth Bethesda."



JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd. JR

**YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE**
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)



**MODURON
PANDY Cyf.**

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio



01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Y Tywydd Poeth

Sut wnaethoch chi ymdopi yn y gwres mawr 'na? I raddau helaeth mae hi'n dibynnu ar eich oedran a'ch iechyd chi. 'Well inni beidio cwyno gormod – mae'r gaeaf yn ddigon hir!

Mae 'na lawer o eiriau ac ymadroddion sy'n cael eu defnyddio yn ystod cyfnod o'r fath.

Dyma i chi rai:

- "Maen nhw'n deud y bydd hi'n **grasboeth** yfory."
- "Ew, ro'n i bron â **rhostio**'n cerddad i lawr i'r Stryd."
- "Mae'r haul **yn danbaid** ganol dydd."
- "Tydi'r gwres 'ma'n **llethu** rhywun? Mae o'n **mynd â nerth** rhywun."
- "Sbia ar y cae'n 'na'n felyn **wedi crasu** yn yr haul."
- "Dydi'r blodau ddim **wedi gwywo** achos mi rois i ddŵr iddyn bob dydd."
- "Mae hi'n **chwilboeth** heddiw – rhy boeth o lawer i mi."
- "Paid ag aros yn **llygad yr haul** neu mi losgi dil!"
- "Bydd rhaid imi fynd i'r cysgod neu mi fydda' i wedi **toddi'n bwl!**"
- 'Ro'n i'n **lladdar o chwys** erbyn imi gyrraedd y siop."

Dyma un y soniodd Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell, amdano gyda mi yn ddiweddar "**chwys doman dail**"

Ac yn wir mae tail yn un pentwr yn gallu bod yn boeth iawn.

Rhowch wybod os oes gynnoch chi ddywediadau eraill am dywydd poeth?

haru. "Be' haru'r plant 'na'n tynnu cerrig o'r wal?" Hynny ydy, "Be' sy ar y plant 'na'n tynnu cerrig o'r wal?"

stwcyn. Disgrifiad o rywun o gorff byr, cryf – "Mae'r hogyn 'na'n stwcyn go nobl."

llimyn. Plentyn eiddil.

clampyn. Rhywun neu rywbeth mawr – "Roedd o'n glampyn o fabi."

storan. Stori fach – un flasus yn aml – yn adrodd hanes rhywun neu'i gilydd – "Sgin ti'm storan imi heddiw?"

"Be' ydi dy hanas di?" Ystyr hwn ydy "Beth wyt ti wedi bod yn ei wneud?"

Weithiau dywedir "**Mae gan hwna hanas!**" gan awgrymu bod rhyw stori digon amheus amdano.

wedi gollwng ei hun. Rhywun wedi colli ei hunan-werth ac wedi dirywio o ran ei wisg a'i wedd ac o ran trefn ei fywyd.

coman. Sylw angharedig ydy hwn i ddisgrifio rhywun neu rywbeth anwedus – "Hen un goman ydi hi."

ceg 'fath â drws popty. Sylw angharedig arall, y tro yma'n cyfeirio at rywun cegog. swnllyd – "Pan mae hi'n agor ei cheg mae hi fel agor drws popty!"



nychu. Wedi blino yn lân neu wedi ymlâdd. **tynnu arno / arni / arnat.** Gwneud hwyl neu dynnu coes rhywun.

Blin fel tincar. Ers talwm byddai tinceriaid yn mynd o amgylch y wlad ac o dŷ i dŷ yn trwsio offer cegin neu unrhyw offer wedi ei wneud o fetel neu dun.'Dwn i ddim os oedd y rhain yn bobl blin ynteu oeddent yn cael eu gweld felly gan eu bod yn aml yn gorfod cnocio pethau i'w cael yn ôl i'w siap, ac am hynny yn gwneud i bobl feddwl eu bod yn flin. Oes gan unrhyw un syniad?

Igian / yr igian / rigian. Yda chi yn dweud un o'r tri yma? 'Rigian' ddyweda i ac rydw i'n falch o ddweud na fyddaf yn eu cael yn aml. Mae llawer ffordd i drio cael gwared arnynt megis yfed dr, dal eich gwynt a chyfri i ugain.

Gan obeithio nad ydych chi'n dioddef o'r igian na cham dreulid da bo chi tan fis Medi. Haf braf, ond dim rhy boeth i bawb.

Cofiwch gysylltu Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN: 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr

Symudol:
07747 628650
Ffôn: 01248 600995



J. TEMPLE MORRIS
A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Porthaethwy (01248) 719517	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437	Pwllheli (01758) 703000	

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau,
bachau, twll llythyrau ac unedau
gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653



Mark Davies

07447804110



Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru



Oes gennych chi
ddiddordeb mewn hysbysebu
yn Llais Ogwen?

Mary Jones maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Cara Aston, Erw Las, Bethesda ac Eryl Morgan o Sling ar eu dyweddiad.

Profedigaethau

Yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 8fed bu farw Mrs Eirwen Williams gynt o 20 Glanffrydlas. Priod annwyl i'r diweddar John. Anfonwn ein cydymdeimad at ei merch, Nerys a'i phriod David a'i mab Brian a'i briod Tracey, ac at ei theulu oll.

Ar Fehefin 18fed bu farw Heather Thomas, Llys Elen, Bangor. Anfonwn ein cydymdeimad at ei gŵr, Arnold ac at ei mab Stuart a'i wraig Amber ym Maes Coetmor. Roedd yn nain annwyl i Shona ac Emily a hen nain i Molly a Caleb, yn chwaer i Gaynor, Joy a'r diweddar Ian ac yn chwaer yng nghyfraith i Eifion a Linda. Cofion atoch i gyd fel teulu yn eich profedigaeth. Bydd y criw sy'n cyfarfod i chwarae chwist yng Nghefnfaes yn colli ei chwmni hefyd.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Lee a Paula a'r teulu ar ôl eu profedigaeth o golli tad Lee, sef John Richard Roberts, Arafadon, Bethesda. Roedd John yn frawd i Mary a Douglas a'r ddiweddar Valerie ac yn frawd yng nghyfraith i Richard,ac ewythr i Steven, Dylan, Claire a Carwyn. Cofion atoch yn eich profedigaeth

Colli Gareth

Ar 14 Mehefin, yn ei gartref yn Bow Street, Ceredigion, bu farw Gareth William Jones, gynt o Faes Coetmor, Bethesda. Roedd Gareth yn fab i'r diweddar Emlyn ac Eleanor Jones ac yn frawd i Glenys a John Gwyn. Bydd colled fawr ar ôl Gareth, oedd yn ddarllenwr brwd o'r Llais bob mis. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Gaenor, Rhian a Llyr a'r wyrion a wyresau ar golli gŵr, thad a thaid annwyl.

Estynnwn ein cofion hefyd i Glenys Morgan. Magwyd Gareth yn 5 Maes Coetmor, sef cartref presennol Glenys, gyda hi a'u brawd sef John Gwyn, sydd yn byw yng Nghaerdydd. Pob cydymdeimlad at y teulu oll yn eu profedigaeth

Cofio Derfel

Mae teulu Derfel yn ddiolchgar iawn bod pobl wedi cofio amdano, a meddwl amdanynt, ar adeg ei benblwydd yn 50 oed ar 26 Mehefin. Yn drist iawn bu farw Derfel, gynt o Adwy'r Nant, ar 29 Medi 1985 yn ddim ond 9 mlwydd oed.

Yn yr Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Dilwyn Owen, Erw Las, sydd wedi bod yn yr ysbyty ers rhai wythnosau bellach. Mae Dilwyn wedi cyfrannu i dudalenau Llais Ogwan ac yn ddarllewr cyson.

Yr Eglwys Unedig

Cyhoeddiadau'r Sul

Gorffennaf 12: Y Parchedig Huw Pritchard (5)
Gorffennaf 19: Y Gweinidog (10)
Gorffennaf 26: Undebol yn y Cysegr, Bethel (10)

NI FYDD OEDFAON YN YSTOD MIS AWST

Medi 6: Undebol yng Nghaeathro (2)
Medi 13: Y Parchedig Eric Jones (10)
Medi 20: Y Gweinidog (10)
Medi 27: Y Parchedig Mererid Mair (5)

Oedfaon

Unwaith eto, cawsom oedfaon bendithiol iawn o dan arweiniad y canlynol: Mr Donald Pritchard; Ceri a Minnie; Y Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths; Y Parchedig Mererid Mair; a'r Parchedig Gerallt Lloyd Evans. Erbyn y bydd y Llais wedi dod o'r wasg, byddwn wedi mwynhau Gwasanaeth Undebol yr Ofalaeth yma yn

Jerusalem, gyda'r blaenoriaid yn cymryd rhan o dan arweiniad y Gweinidog. Gobeithiwn hefyd y bydd Mrs Eirlys Williams wedi gwella'n ddigon da i ddod atom yn nechrau Gorffennaf. Diolch o galon i bob un o'r rhain am eu cenadwri i ni, ac am eu ffyddlondeb i'r Achos.

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd Bore Coffi yn y Ffestri fore Gwener, Mehefin 12fed, a gwnaethpwyd elw o £192.25. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

Fore Mercher, Mehefin 17eg, aeth 15 o aelodau ar y trip blynyddol, gan ddechrau ym Mhant Du, Penygroes gyda phaned a sgwrs hamddenol, cyn mynd ymlaen i Lanystumdwy i Amgueddfa Lloyd George, ac yna i Gricieth am ginio. Diwrnod hamddenol ac addysgiadol dros ben – diolch i'r rhai fu'n trefnu.



Cyngor Cymuned Bethesda

Mae ardal Bethesda wedi bod yn ffodus iawn o fod yn rhan o brosiect Llewyrch o'r Llechi, lle mae yna welliannau yn cael eu gosod ar y Stryd Fawr. Mae'n siwr eich bod bellach wedi sylwi ar y biniau sbwriel newydd. Ar y gweill hefyd mae meinciau newydd, yn ogystal â gosod llechi yn y palmant ar safle Llys Dafydd. Bydd y llechi hyn yn arddangos geiriau a iaith Pesda!

Mae'r Cyngor Cymuned yn hynod o falch o ddatgan eu bod am ariannu'r Clwb leuencid sy'n cael ei gynnal dwy noson yr wythnos, yng Nghanolfan Cefnfaes. Bydd y clwb yn rhedeg o fis Medi 2026 hyd at Pasg 2027.

Rydym yn siomedig iawn i gyhoeddi y bydd rhaid i ni gloi'r giatiau ar Llys Dafydd ar y penwythnosau, yn dilyn cyfnod o fandaliaeth a difrod i'r safle a'r planhigion yn ddiweddar. Gobeithio y byddwn yn gallu ail-ystyried ein penderfyniad yn y dyfodol.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cyngerdd Mawreddog

Braf oedd croesawu Côt Meibion y Penrhyn, ynghyd â'r Arweinydd, Owain Arwel Davies a'r Cyfeilydd, Frances Davies, i'r eglwys nos **Wener, Mehefin 26** am wledd o gerddoriaeth. Braf iawn oedd gweld yr unawdydd **Caleb Rhys**, ynghyd â'i gyfeilydd yntau, **Ross Craigmile**. Magwyd Caleb yn y Gerlan a gwelsom ef yn meithrin ei dalent yn lleol ers yn ieuanc iawn. Ar noson boeth o Haf, braf oedd cael denig o'r gwres i awyrgylch cŵl yr eglwys.

Diolch i bawb a gefnogodd y noson, ac yn enwedig y perfformwyr. Gwnaethpwyd dros £1,000 i Apel Atgyweirio'r eglwys, sydd yn hwb mawr i'r achos. Mae un gwobr raffl heb ei hawlio. Os oes gennych docyn yn y boced neu'r pwrs a rhif **110** arno, cysylltwch a Barbara ar 01248 600530 neu lan ar 01248 600931.

Apel

Mae cronfa'r Apel yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogi pob un yn fawr. Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apel, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.

Os hoffai rhywun drefnu Noson Bingo i helpu gadw'r eglwys ar agor er budd y Gymuned, mae digon o lyfrau Bingo gennym mewn llaw. Cysylltwch â Sara.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth,

neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiw'n yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch. Cofiwch roi gwybodaeth i Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

Plas Ogwen

Ar y Sul olaf o'r mis, mae'r Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch y prynhawn. Mae croeso i bawb, sy'n dymuno fod yn bresennol.

Gwasanaethau Glanogwen

Dyma drefn gwasanaethau yng Nglanogwen am y dyfodol:

Suliau 1af a'r 3ydd yn y mis: - Cymun Bendigaid am 11am.

Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis am 10.30am - Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

Manylion cyswllt

Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981, neu gyda'r Archddiacon, y Parchedig David Parry, ar davidparry@churchinwales.org.uk os am drefnu bedydd neu angladd.

Clwb Cant Glanogwen

Enillwyr Mis Mai:
1af Heulwen Roberts.
2il Alan Davies.

Ariannu Chwaraeon i'r Ifanc

Pan fydd cyffro Cwpan y Byd a Gemau'r Gymanwlad drosodd bydd y gwaith caled o ymarfer a chystadlu yn parhau i'r unigolion hynny sydd yn frwdfrydig am eu camp a'u bryd o bosib ar Bencampwriaethau Rhyngwladol neu hyd yn oed y Gemau Olympaidd - ac ynghlwm â hyn rydym yn ymwybodol fod costau enbyd. Mae Ymddiriedolaeth Cofio Robin yn cynnig cymorth i rai o dan 25 oed o Wynedd a Chonwy sydd yn anelu yn uchel yn eu camp - hyd yma mae'r elusen wedi rhannu dros £120,000 i dros 120 o unigolion yn cynrychioli 30 o gampau gwahanol.

Wyddoch chi am unrhyw un sydd yn wynebu costau teithio, costau cystadlu uchel allai elwa o gymorth ariannol

- yna cyfeiriwch nhw at y wefan www.cofiorobin.co.uk lle gallan nhw gael mwy o gefndir yr elusen a sut i ymgeisio. Mae'r ffurflen i'w chael yno a bydd angen ei chwblhau a'i dychwelyd erbyn Hydref 10fed, 2026.

Mae'r elusen mor falch o fod wedi gallu rhoi cymorth i dair sydd yn cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad eleni, sef Medi Harris a Ela Letton-Jones (nofio) a Catrin Haf Jones (codi pwysau). Hefyd rydym wedi cefnogi Mared Griffiths y beldroedwraig addawol o Drawsfunydd ac rydym yn edrych ymlaen i estyn cymorth i fwy o sêr y dyfodol.



Y Gerlan

Caren Brown

07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Penblwydd Hapus

Bydd dathliad arall yng Ngwaen Gwail mis yma wrth i Meleri Parry ddathlu ei phenblwydd yn 21. Gobeithio y cewch chi amser da yn mwynhau'r achlysur arbennig.

Penblwydd hapus i Mali Hughes, Ciltwillan yn 18 oed. Gobeithio dy fod yn mwynhau'r dathlu Mali.

Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Amanda a Dafydd Roberts, Stryd Hir Gerlan ar eu Penblwydd priodas Ruddem ar y 14 eg o Fehefin.

Llawdriniaeth

Gyrrwn ein cofion am wellhad buan i Dafydd

Fôn Stryd y Ffynnon ar ôl llawdriniaeth diweddar. Gobeithio dy fod yn cryfhau Dei.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon O'Marah a Tom ar eu dyweddïad. Mae teulu Gwernydd wedi gwirioni

Caffi Trwsio

Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Mehefin. Bydd y Caffi Trwsio nesaf dydd Sul Gorffennaf 26ain (11-1pm). Galwch draw am banad!

Priodas

Llongyfarchiadau i Ieuan a Nic Temple Morris ar eu priodas yng Ngwesty Carreg Bran ar y 23ain o fis Mai. Mae teulu a ffrindiau i gyd yn gobeithio'r gorau i chi'n eich bywyd newydd.



YSGOL BODFEURIG

Mae'n anodd credu fod blwyddyn ysgol arall bron a dod i ben – mae wedi bod yn flwyddyn brysur, llawn hwyl, dysgu a phrofiadau i blant Bodfeurig. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mabolgampau

Cafwyd diwrnod gwerth chweil ar gyfer y mabolgampau gyda'r glaw yn cadw draw i ni gael diwrnod o baratoi wrth greu posteri ar gyfer ein tai cyn cystadlu mewn rhedeg, taflu, rhwystrau, ras gyfnewid ac wrth gwrs y ras rhieni! Diolch i'r pwyllgorau am gael defnyddio y Neuadd Goffa a'r cae peldroed i sicrhau diwrnod bendigedig.



Gŵyl griced

Criced

Er gwaethaf y tywydd poeth cafwyd llawer o hwyl yn ystod mis Mehefin. Bu blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn yr ŵyl griced gan fwynhau cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y dalgylch. Diolch i'r rhai fu'n trefnu!

Ffarwelio

Pob mis Gorffennaf bydd rhaid ffarwelio gyda phlant blwyddyn 6. Mae wedi bod yn fraint gweld y bobl ifanc yma yn tyfu o'u dyddiau cyntaf yn yr ysgol i fod yn unigolion brwdfrydig, chwilfrydig a llawn hwyl. Mae wedi bod yn bleser i ni fel staff yr ysgol fod yn rhan o'ch siwrne chi – pob lwc i



Diwrnod môr ladron
Y tymor yma mae dosbarth Idwal wedi mwynhau dysgu am lan y môr a'r môr ladron. Uchafbwynt y dysgu oedd dathlu gyda diwrnod môr ladron – cael gwisgo i fyny, gwneud llawer o weithgareddau diddorol, a chael picnic môr ladron i orffen.

bob un ohonoch wrth i chi symud i'r ysgol uwchradd!

Ar ddiwedd y tymor rydym hefyd yn ffarwelio gyda'n Pennaeth – Mr. Gareth Edwards. Mae Mr. Edwards wedi bod yn bennaeth acw ers tair mlynedd bellach, ac wedi gadael ei ôl acw mewn sawl ffordd – o drefnu grantiau ar gyfer ein gardd gymunedol i sicrhau llu o brofiadau i'r plant. Diolch Mr. Edwards, a phob lwc yn eich swydd newydd yn Ysgol Bontnewydd.

Yn olaf, rydym yn ffarwelio gyda Miss Susan Owen. Mae Miss Owen wedi bod yn ran allweddol o'n hysgol arbennig ni ers dros 12

mlynedd. Mae hi wedi bod yn rhan o ddechrau taith nifer fawr o blant trwy'r ysgol. Dwi'n sicr fod nifer fawr o blant a rhieni yn ddiolchar iawn am ei hymroddiad a'i gofal dros y plant yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol. Pob lwc Miss Owen – mae pawb acw yn dymuno'r gorau i chi!

Gair neu ddau John Pritchard

YMAROS

Hir yw pob ymaros. Roedd tîm pêl droed dynion Yr Alban yn nhwrnamaint Cwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1998. Felly hefyd Norwy ac Awstria. Ac roedd llawenydd eu cefnogwyr o fod yno yn amlwg i bawb. Bu Haiti a GDd Congo yn aros yn hwy fyth: dyma'r tro cyntaf ers 1974 i'r naill a'r llall gyrraedd y rowndiau terfynol. Roedd Cabo Verde, Curaçao, Gwlad Iorddonen ac Uzbekistan yno am y tro cyntaf. Medrwn ddeall y gorfoledd o fod yn rhan o'r sioe wedi i Gymru, bedair blynedd yn ôl, fod yn rhan ohoni am y tro cyntaf ers 1958.

Hir fu'r aros hefyd i gefnogwyr un blaid yng Nghymru. Ond wedi Etholiad Senedd Cymru ddechrau Mai, daeth gorfoledd i aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru wedi iddi ffurfio llywodraeth am y tro cyntaf yng Nghaerdydd. Dros ganrif gyfan, bu rhai'n gobeithio ac yn breuddwydio am lwyddiant etholiadol o'r fath.

A hir fu'r aros yng Nghymru hefyd am ddeffroad ysbrydol. Mae bron i ganrif a chwarter ers y diwygiad nerthol diwethaf

a welodd ein gwlad. Nid dibrisio unrhyw adfywiad a brofwyd na dilorni'r dystiolaeth a ddygwyd i'r Efengyl ers cyffro Diwygiad 1904-05 ydi deud y bu Cymru'n amddifad o ddylanwadau grymus yr Ysbryd Glân ers yn rhy hir o lawer. Medrwn sôn yn hiraethus am yr hyn a gyflawnodd Duw yn y gorffennol. Eleni, ddau gant a hanner o flynyddoedd ers ei geni, rhoddir sylw cwbl briodol i Ann Griffiths, y ferch ifanc o Ddolwar Fach a ddaeth, wedi ei thröedigaeth yn Niwygiad Efengylaidd neu Fethodistaidd y Ddeunawfed Ganrif, yn un o brif emynwyr y genedl a'r byd Cristnogol ehangach. Ond un peth ydi dathlu bendithion y gorffennol sy'n mynd ymhellach oddi wrthym gyda threigl pob blwyddyn, a siarad yn hiraethus am y gobaith o weld pethau tebyg yn ein hoes ein hunain. Peth arall ydi ceisio bendithion Duw a disgwyl iddo weithio'n rymus er mwyn deffro pobl i'w hangen am y bywyd a gynigir yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Ia, hir yw pob ymaros. A gellid deud fod Cristnogion Cymru wedi aros yn hir am gael gweld Duw yn bendithio'i waith, ym mha ffordd bynnag y bydd yn dewis gwneud hynny. Nid wyf am eiliad yn amau'r dymuniad

sydd yn ein plith i weld llewyrch yng ngwaith y Deyrnas, nac yn amau ymroddiad llawer o Gristnogion i'r gwaith hwnnw heddiw ac ar hyd y blynyddoedd. Yn amlwg, mae pobl y Ffydd yn awyddus i weld gwaith yr Arglwydd yn llwyddo a'r Efengyl yn ennill tir. Ac er pob siom a digalondid sy'n medru dod yn sgil y dirywiad a'r tlodi ysbrydol a welsom cyhyd, mae rhai – a diolch amdanynt – yn dal i obeithio.

Ond tybed nad am hir ymaros ond am wir ymaros y dylem sôn? Oherwydd onid oes raid bod yn onest a gofyn faint o ddisgwyl sydd mewn gwirionedd? Faint o ddyheu? Faint o ofyn? Faint o weddio taer am i Dduw drugarhau a bendithio. Nid wyf yn amau gallu Duw i fendithio. Nid wyf chwaith yn amau ei allu i wneud hynny yn gwbl annisgwyl mewn unrhyw gyfnod, ac yn gwbl annibynnol arnom ni a'n tebyg. Ond mi wn i hefyd ei fod wedi ei gwneud yn amlwg trwy ei addewidion yn Y Beibl ei fod am i'w bobl alw arno a disgwyl oddi wrtho. Ond am ryw reswm, er gwybod hynny cyndyn fûm, a chyndyn wyf fi a chynifer o'm cyd-gristnogion, rwy'n ofni, i wneud hynny.

Talwrn Gwenllian

Mi gynhaliwyd talwrn barddoniaeth a rhyddiaith fel rhan o Wyl Gwenllian bnawn Sadwrn, 13 Mehefin yng Nghanolfan Cefnfaes. Hyd y gwyddom ni, hwn oedd y talwrn cyntaf o'i fath, efo dim ond merched yn cymryd rhan. Y Meuryn oedd Casia Wiliam, ac roedd tîm Diosg (grŵp sgwennu creadigol Dyffryn Ogwen) yn cystadlu yn erbyn beirdd y byd, sef Anni Llŷn, Megan Lloyd, Nici Beech a Sian Northey. Beirdd y byd aeth â hi o drwch blewyn, ar ôl awr hwyliog dros ben.



Dyma lun o'r beirdd gymrodd rhan yn Talwrn Gwyl Gwenllian. (Yn sefyll) Sian Esmor, Non Ifans, Gwenno Gwilym, Meleri Davies, Kate Wheelock, Casia Wiliam, Sian Shakespear (ac yn eistedd) Nici Beech, Sian Northey, Megan Lloyd ac Anni Llŷn

Talwrn Gŵyl Gwenllian 2026
(Oherwydd prinder gofod yn y Llais dyma beth o'r cynnyrch yn unig)

Tasgau Tîm Diosg
Pennill Ysgafn (dim mwy na 6 llinell) – Camgymeriad – Siân Esmor
Ro'n i'n sgwennu pennill iti
Efo llwyth o eiriau digri.
Er ei wychder a'i arddeliad
Nid oedd ar destun 'Camgymeriad'!

Cwpled caeth ar yr odl 'al' – Siân Esmor

Reform UK
Bargeinion o Saeson sâl,
Cwyno sydd yn eu cynnal.

Cân neu Rap (dim mwy nag 20 llinell) – Mynadd – Gwenno Gwilym

Mynadd - Rap Canol Oed
Mynadd gorfod cwcio, dystio a sgwrio,
gweithio, garddio a diy-io
heb sôn am moistyriso, cleansio a shafio
ac wrth gwrs, rhaid cadw'n heini
lunes, crunches, stretches, pelvic rotation a stabilisation
be bynnag 'di rheini
Mynadd gorfod poeni am bawb arall
Ydi pobl yn deall faint o'n diwrnoda ni sy'n diflannu
wrth ddewis be i'w flaenoriaethu?
Amser yn meddwl be sydd i swper
Ydi'r cig wedi dadmer a be am nos Fercher
pan mae tri gweithgaredd?
Does ryfedd mod i'm yn dallt cynganedd
Mae'r dyddia'n gwibio heibio
heb ddim rapio na pherfformio
byth amser i odli na barddoni
dim arbrofi wrth gyfansoddi
Mynadd trio cyrraedd safonau hollol arwynebol
gelyn unrhyw waith creadigol
Bet fod Eminem 'rioed 'di goro nôl plant o'r ysgol

Limrig yn cynnwys y llinell 'Dwi'n cymryd pythefnos o wyliau' – Gwenno Gwilym yn darllen gwaith Kate Wheelock

Dwi'n cymryd pythefnos o wylia'
I ddianc rhag rhai o fy ffrindia',
Ond fel mae hi'n digwydd
Yn y swyddfa mae arwydd –
A'r bygers i gyd ar y bws 'ma!

Tîm Beirdd y Byd
Sian Northey, Nici Beech, Megan Lloyd, Anni Llŷn

1.Pennill Ysgafn (dim mwy na 6 llinell) – Camgymeriad
Camgymeriad
Sawl un dwi di 'neud, sawl gwaith,
halen mewn paned neu finag ar graith
sawl stop ar y carwsél cywilydd,
fy meddwl yn llawn o'r hen bethau sili
ond un sydd yn aros o hyd, un difrifol,
does dim camgymeriad fel rhech ddamweiniol.
(MLI)

2.Cwpled caeth ar yr odl 'al'
Efa â'th flys am afal,
Dy stori di sy'ma'n dal.
(SN)

Gavin - er hwyl a gofal,
doedd dim patch, y catch oedd Carl!
(ALL)

3.Cân neu Rap (dim mwy nag 20 llinell) – Mynadd
Mynadd..
Does gen i ddim mynadd byw bywyd ar lein
sgrolio am oriau yn 'yli ar hein'
byd o biliynwyr a gwybod ein lle
dim mynadd gen i 'fo'r asgell dde

Dim mynadd i frwydro dros iaith
cymuned ar chwâl gan argyfwng tai
dim gwlad yn y byd sy'n gytûn
does dim mynadd gen i mewn byd sydd i ddyn

Chwirydd ym mhob man gwerth llai
bywyd mor anodd ond dim ond i rai
er gwaethaf y mynadd i gyd
dwi'n diolch yn ddyddiol am fod ar y byd

Pob dydd dwi'n gweld gwyrthiau arferol
a llwyth o freuddwydion mewn byd mor hunllefol
pobl yn gafael eu gobaith brau
yn deffro pob dydd a dyfalbarhau

Fy ffrindiau yn faneri heddwch
yn brysur yn brwydro yn galw am degwch
a gwelaf fod llawer peth hudol
mewn ystafell o ferched amyneddgar llenyddol.
(MLL)

4.Limrig yn cynnwys y llinell 'Dwi'n cymryd pythefnos o wyliau'
Mi weithiais ac ennill fy sgiliau
Mi weithiais a thalu fy miliau
Mi weithiais heb os
A fi ydi'r bos
Dwi'n cymryd pythefnos o wyliau.
(NB)

Annes Glynn, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

Dechrau'r dathlu

Er ei bod yn ddechrau cyfnod gwyliau'r haf mae pwyllgor y Neuadd yn brysyr yn paratoi cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu ei chanmlwyddiant.

Y digwyddiad cyntaf fydd 'Profi Teisen Pen-blwydd y Neuadd' ar brynhawn Sadwrn, Medi 26, fydd yn gyfle i'r ardalwyr ddod at ei gilydd i ddathlu'r canmlwyddiant ynghyd â chyn-bentrefwyr a chyn-aelodau'r pwyllgor rheoli. Bydd cyflwyniad gan Cynrig yn tynnu sylw at gyfraniad y Neuadd yn hanes y pentref a'r gymuned gyfan.

Cadwch lygad allan am fwy o fanylion yn rhifyn Medi, yng Nghalendr y Dyffryn a'r golofn hon.

Arddangosfa

Yn dilyn derbyn nawdd gan Lle CHi Lle Ni, fe fu disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yr ysgol gynradd yn gweithio gyda'r artist o Lanberis, Sally Ellis, ar ddarnau amrywiol o waith argraffu yn olrhain rôl Rhiwlas fel rhan o ardal chwarelyddol. Cafwyd y cyfle cyntaf i'r pentrefwyr weld y gwaith ar brynhawn Sadwrn,

Gorffennaf 14, yn ystafell Gymunedol y Neuadd. Bydd adroddiad llawnach a lluniau i'w gweld yn rhifyn mis Medi'r Llais.

Merched y Wawr

I gloi'r tymor mwynhaodd yr aelodau bryd blasus o fwyd ym mwyty Pant Du, Penygroes ar Fehefin 9. Roedd hi'n brynhawn braf a'r golygfeydd yn drawiadol a phawb wedi eu plesio â'u dewis o bryd. Diolch i'n llywydd, Linda, am drefnu.

Edrychwn ymlaen at ailafael yn yr awenau ym mis Medi pryd y bydd rhaglen amrywiol yng ngofal aelodau unigol y gangen. Rydym yn cyfarfod yn y Neuadd ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb, aelodau hen a newydd!

Un fu'n aelod ffyddlon ar hyd y blynyddoedd yw Dilys Parry, Bryn Tirion. Gan nad yw hi'n medru codi allan llawer y dyddiau yma penderfynodd rhai o'r aelodau alw heibio i'w gweld am gyfarfod anffurfiol ddiwedd Mai. Roedd blas ar y sgwrs a'r baned yr oedd Dilys wedi ei pharatoi ar ein cyfer. Diolch o galon am y croeso, Dilys!

Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Yn ôl yr arfer dros wyliau'r haf ni chynhelir gwasanaethau weddill Gorffennaf ac Awst ond byddwn yn ailagor y drysau ar **fore Sul, Medi 13**, pryd y disgwyliwn y Parch John Gwilym Jones i'n gwasanaethu am 10 y bore. Croeso cynnes i bawb.

Mwynhewch y gwyliau!

Lle bynnag y byddwch chi'n treulio'r haf yma, boed adref neu ar daith, mwynhewch yr egwyl. Ni fydd rhifyn o'r Llais ym mis Awst yn ôl yr arfer ond edrychaf ymlaen at dderbyn eich newyddion ar gyfer rhifyn Medi ar **ddydd Sadwrn, Awst 29ain**. Diolch am eich cefnogaeth.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ieuan Hughes o adran Bas 2 Côr y Penrhyn ar ddathlu 50 mlynedd fel aelod o'r côr yn ddiweddar. Dipyn o ymroddiad! Derbyniodd Ieuan dlws arbennig gan gadeirydd y côr, William Parry, yn eu hymarfer ddiwedd Mehefin i nodi'r garreg filltir nodedig.




Diogelu casgliad cardiau post arbennig i Ddyffryn Ogwen

Bydd pawb sydd â diddordeb yn hanes Dyffryn Ogwen yn falch o ddeall fod casgliad cardiau post y diweddar Alaw Jones, Parc Moch, bellach wedi ei ddiogelu yn Archifdy'r Coleg a gellir canfod oriau agor yr Archifdy ar y we dan bennawd y Brifysgol. Mae Mrs Betty Jones, gweddw Alaw, i'w diolch am ofalu fod y trysor hwn ar gadw yn uned gyflawn ac mewn dwylo diogel i'r dyfodol.

Mae'r casgliad yn un cwbl unigryw yn cynnwys oddeutu 450 o gardiau post sy'n adrodd agweddau ar hanes drwy lun o fywyd prysur yr ardal o'r porthladd yn Aber Cegin i bentrefi Tregarth, Mynydd Llandygái, Llanllechid, Rachub, Braichmelyn a'r Gerlan, gyda'r ffocws pennaf ar bentref Bethesda a Chwarel y Penrhyn.

Mae nifer o'r cardiau yn rhai prin ond pwysigrwydd y casgliad

yw ei fod yn gyfraniad cyflawn i un ardal benodol. Mae croeso i ymwelwyr weld y casgliad yn Archifdy'r Coleg a gellir canfod oriau agor yr Archifdy ar y we dan bennawd y Brifysgol. Mae Mrs Betty Jones, gweddw Alaw, i'w diolch am ofalu fod y trysor hwn ar gadw yn uned gyflawn ac mewn dwylo diogel i'r dyfodol.



YSGOL RHIWLAS

Cymorth Cyntaf i Blant

Cawsom y pleser o groesawu Jess o 'Mini First Aid' i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal sesiwn cymorth cyntaf hynod werthfawr gyda'r holl ddisgyblion. Yn ystod y sesiwn, cafodd y plant gyfle i ddysgu sgiliau achub bywyd hollol hanfodol. Roedd Jess yn wych am esbonio popeth mewn ffordd glir a phriodol i'w hoedran. Un o uchafbwyntiau'r ymweliad oedd dysgu beth i wneud mewn argyfwng, ac yn bwysicach byth, sut i berfformio CPR! Diolch yn fawr iddi am sesiwn mor ysbrydoledig ac ymarferol.

Gŵyl Griced

Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp arbennig o ddisgyblion a fynychodd yr Ŵyl Criced diweddar ym Methesda. Bu'r tîm yn cystadlu'n frwd yn erbyn nifer o ysgolion eraill, gan ddangos sgiliau gwych a thunelli o frwdfrydedd. Roedd yn bleser gweld y plant yn cydweithio fel tîm, yn cefnogi ei gilydd, ac yn arddangos ysbryd chwaraeon rhagorol drwy gydol y dydd. Gwnaethoch chi gynrychioli'r ysgol yn arbennig o dda, ac rydym yn falch iawn o'ch ymdrechion a'ch agwedd bositif.

Prynhawniau Agored

Buom yn croesawu'r criw bach arbennig sy'n cychwyn gyda ni ym mis Medi i'n prynhawniau agored yn ddiweddar. Roedd y dosbarth yn llawn cyffro, chwerthin a llawer iawn o hwyl! Cafodd y plant gyfle gwych i chwarae gyda'r teganau, a dod i adnabod eu hamgylchedd newydd ac, wrth gwrs, ei gilydd. Diolch yn fawr i'r rhieni ac i'r plant am ddod – mae'r antur newydd ar fin cychwyn!

Yr Wyddfa

Yn ddiweddar, aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar antur fawr i geisio herio copa'r Wyddfa. Roedd pawb yn llawn cyffro ac yn edrych ymlaen at yr her o'u blaenau. Fodd bynnag, cawsom ddiwrnod o dywydd poeth ac er gwaethaf ymdrechion pawb, er mwyn cadw pawb yn ddiogel, gwnaethom y penderfyniad i beidio â gwrthio'r holl ffordd.

Ffair Haf

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i godi cyfanswm anhygoel

o £300 ar gyfer cronfa'r ysgol yn ein Ffair Haf yn ddiweddar! Bydd yr arian yma yn mynd yn syth tuag at gyfoethogi profiadau ac adnoddau ein disgyblion. Hoffem ddiolch i'r holl gwmnïau bach a ddaeth i osod stondinau ac i gynnig nwyddau a gwasanaethau gwych. Diolch hefyd i'n teuluoedd, ffrindiau a'r gymuned leol am ddod i'n cefnogi.

Wythnos Awyr Agored

Roedd ein hwythnos gweithgareddau wedi bod yn un llwyddiannus dros ben! Cafodd dysgwyr Cyfnod Allweddol 2 (Dosbarth Mr Davies) gyfle arbennig drwy'r wythnos i ddatblygu eu gwydnwch, sgiliau cydweithio, a magu hyder drwy amrywiaeth o weithgareddau hwyliog - taith gerdded i Dre'r Ceiri ac i Gopa'r Eifl, diwrnod ym Mhlas Menai a gweithdy celf gyda Mrs Rowlands. Roedd pawb wrth eu boddau!

Tacla Taid a Sw Mor

Cawsom ddiwrnod braf ar ein taith ysgol ddiweddar i Ynys Môn, gan ddechrau'r bore gydag ymweliad â Thacla Taid (Amgueddfa Drafnidiaeth). Roedd camu i mewn yno fel teithio yn ôl mewn amser! Cawsom gyfle i weld casgliad anhygoel o wahanol fathau o drafnidiaeth, gan gynnwys ceir clasurol, hen feiciau modur, tractorau lliwgar, ac unedau amaethyddol hanesyddol. Ar ôl mwynhau ein pecyn bwyd yn yr haul wrth y môr, aeth y daith yn ei blaen ar gyfer prynhawn hollol wahanol yn y Sw Môr - yma cafodd pawb weld yr holl greaduriaid bach, ac amser yn y siop wrth gwrs!

Ffarwelio â Mr Williams a Mr Rogers

Mae wedi bod yn gyfnod prysur a braf iawn yn yr ysgol dros y misoedd diwethaf, ac rydym yn gorfod ffarwelio â dau fyfyrwr arbennig sydd wedi bod ar leoliad yma gyda ni - Mr Aled Williams a Mr Huw Rogers. Hoffem ddiolch o galon i'r ddau ohonynt am eu gwaith caled, eu hegni, a'u hymrwymiad drwy gydol eu cyfnod yma. Rydym yn dymuno pob lwc a llwyddiant iddynt i gyd wrth iddynt gychwyn ar eu gyrfaedd ym myd addysg. Diolch am bob dim, a chofiwch ddod yn ôl i'n gweld ni.

Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Mehefin, ar nos lau yr 11fed.

I gychwyn, hoffem estyn ein diolch i Arwyn Tudur Jones â ymunodd â ni i ddarparu hyfforddiant Ciciwr Calon (de-fib). Mae dysgu syt i ddefnyddio'r peiriant yn amhrisiadwy, all achub bywyd rhyw ddydd.

Felly diolch mawr i Arwyn am ddod yn amser ei hun. Mae Arwyn yn ymatebwr cyntaf cymunedol gwirfoddol gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans Cymru GIG.

Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen oedd yn fuddugol yn Rali Eryri a gynhaliwyd ar ffarm Cochwillan. Da iawn chi!

Fel rwy'n siŵr eich bod wedi sylwi, mae gwaith torri llwybrau wedi cychwyn, mewn pryd i'r tywydd braf.

Ac i orffen, braf oedd croesawu 'nôl Y Cyng Alun Thomas, sydd wedi bod yn gwella o anaf i'w goes. Croeso nôl Alun!



BYSUS
D. P. OWENS
RHIWLAS

01248 361044
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - triptiau, priodasau, partion ac ati.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Sefydliad Y Merched Carneddi

Croesawodd Gwyneth bawb, a gwnaed trefniadau terfynol ar gyfer ein trip blynyddol, sef ymweliad â Chwt Tatws yn Nhudweiliog, ac yna Te Prynhawn yn Caffi Ni yn y Wern, Pwllheli. Rhoddodd Delyth groeso i'n siaradwraig gwadd, Angharad Tomos, a threuliwyd noson hwyliog a hamddenol iawn yn gwrando arni yn son am ei chysylltiad teuluol â Bethesda, a hanes nifer o'i pherthnasau. Cafwyd cefndir ei llyfr Si Hei Lwli a ennillodd y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod 1991, ac hefyd ychydig o gefndir Deiseb Heddwch Y Merched. Diddorol iawn. Diolchwyd iddi gan Gwyneth.

***Oes gennych chi
ddiddordeb
mewn hysbysebu
yn Llais Ogwen?***

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Carmel, Llanllechid

Oedfaon Sul(5 o'r gloch)
Gorffennaf 19: Parchg Hugh Pritchard
Gorffennaf 26: Gwasanaeth o Fawl
Dim oedfaon ym mis Awst
Medi 6: Parchg Ronald Williams
Medi 13: Parchg Nerys Griffiths

Y Clwb Gwau

Yn ôl yr arfer, mi gawsom ni ein trip blynyddol i siop ddefnyddiau Abakhan yn Llannerch y Môr, Sir y Fflint, ac wedyn i siop y Tweedmill yn Llanellwy. Mi gawsom ni ddiwrnod braf iawn i fwynhau'r siopa a'r bwyd. Mae'r Clwb Gwau yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed eleni. I gofio'r dathlu, mae Marian Jones wedi bod yn brysur yn paratoi llyfryn o luniau difyr o weithgareddau'r clwb ar hyd y degawdau.

Mae hanes gweithgareddau eraill y chwiorydd ynddo fo hefyd, yn cynnwys y Te Bach, teithiau cerdded ac ati. Diolch yn fawr iawn i ti, Marian.

Mae'r llyfryn ar gael rŵan, yn costio £5 a'r elw at y Clwb; cysylltwch efo Helen Williams.


Mae'r merched wedi bod yn brysur drwy'r flwyddyn yn casglu arian tuag at beintio nenfwd y Capel. Casglwyd arian drwy gynnal Te Bach a Raffl. Yn ogystal â hynny, derbyniwyd rhoddion caredig gan aelodau, cyfeillion, a thrigolion yr ardal. Rydan ni'n gobeithio cael peintio'r nenfwd yn ystod yr haf ac mi fyddwn ni'n ddiolchgar iawn pe byddai unrhyw un arall yn hoffi rhoi rhodd tuag at y gwaith hwnnw. Diolch yn fawr iawn.

Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur

Bu aelodau'r Clwb yn brysur yn casglu blodau gwylltion ac yna yn eu rhoi at ei gilydd yn dusw tlws, a'i ddodi mewn powlen wydr. Cafwyd arddangosfa ddel iawn o'r blodau yma. Bu'r plant yn peintio lluniau anifeiliaid ac yn gwrando ar stori Daniel yn ffau'r llewod. Yna, mi fuon nhw'n canu emynau o ddiolch am yr haf ac am y tywydd braf.



Genod Clwb Dwylo Prysur efo'u tuswau o flodau'r maes.



Mair Rowlands AS

Bellach bron yn ddeufis ers yr etholiad hanesyddol, ac mae'r gwaith caled eisoes wedi dechrau. Rhwng fy nghyfraniadau yn y cyfarfodydd llawn, ymweliadau ar draws yr etholaeth a'r broses o sefydlu swyddfa, dwi'n hynod falch o'r cyfle i gynrychioli'r ardal a'i phobl ar y lefel genedlaethol.

Dros y pedair blynedd nesaf, dwi'n edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chymunedau ar draws yr etholaeth, gan gynnwys trigolion, grwpiau lleol a mudiadau cymunedol, er mwyn sicrhau bod eich lleisiau yn cael eu clywed yn glir ar lawr y Senedd. Mae'n hanfodol bod materion sy'n bwysig i gymunedau lleol yn cael y sylw ar lefel cenedlaethol.

Dwi hefyd yn awyddus i gydweithio'n agos gyda busnesau a sefydliadau lleol, sy'n cynnal ein cymunedau. Hoffwn fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau sydd yn eu hwynebu, gan helpu i sicrhau bod y gefnogaeth

briodol ar gael iddynt. Mae'r rôl y mae busnesau a mudiadau yn eu chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru, yn hollbwysig ac mae angen eu diogelu.

Mater arall sy'n ganolog i'm gwaith yw sicrhau cyfleoedd parhaus i blant a phobl ifanc yn ein cymunedau. Yn rhy aml, mae diffyg cyfleoedd addysg, swyddi a hyfforddiant yn gorfodi pobl ifanc i symud i ffwrdd o'r ardaloedd lle cawsant eu magu. Dwi eisiau sicrhau bod mwy o gyfleoedd ac adnoddau ar gael yn lleol, ynghyd â gweithio'n agos gyda phobl ifanc i ddeall eu hanghenion a'r heriau sy'n eu hwynebu.

Dwi hefyd yn y broses gyffrous o sefydlu fy swyddfa, ac rwy'n fwy na pharod i chi gysylltu â mi os hoffech godi unrhyw bryderon neu os gallaf fod o gymorth mewn unrhyw ffordd. Mae croeso i chi gysylltu â mi drwy e-bost, mair.rowlands-as@senedd.cymru.



SAMARIAID
Gegledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

YSGOL LLANLLECHID

Syrffio

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod hollol fythgofiadwy yn ddiweddar ar gychwyn eu taith dros y tonnau yn Nhraeth Llydan, Rhosneigr. Diwrnod o syrffio? Diolch yn fawr, ond yr oedd yn llawer mwy na hynny - dyma oedd addysg ar ei orau! Roedd yr amodau syrffio yn hollol wych, ond yr un mor wych oedd agwedd y disgyblion. Drwy gydol y dydd, gwelwyd yr elfennau gorau o gydweithio, cefnogi a gwrando'n astud ar gyngor yr hyfforddwy. Wrth i rai wynebu heriau ar y bwrdd, roedd sgiliau datrys problemau a dyfalbarhad yn amlwg ymysg pawb. Daeth pawb yn ôl i'r lan gyda gwen fawr ac atgofion a fydd yn aros gyda nhw am weddill eu hoes.

Criced

Roedd hi'n ddiwrnod i'w gofio yng Nghlwb Criced Bethesda yn ddiweddar, wrth i'r ysgol gael llwyddiant ysgubol yng ngŵyl criced yr ysgolion cynradd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm a gynrychiolodd yr ysgol — fe wnaethoch chi gamp a hanner!

Chwaraewyd gemau o safon eithriadol, gyda phawb yn dangos sgiliau maes, bowlïo a batïo gwych. Ond yn bwysicach fyth, y cydweithio a'r ysbryd tîm brwd oedd yn disgleirio ar y caeau. O ganlyniad i'w gwaith caled, llwyddodd y ddau dîm i gyrraedd y rowndiau terfynol, gydag un tîm yn fuddugol ym mhrif gystadleuaeth y Gwpan, a'r tîm arall yn cipio'r clod uchaf yng nghystadleuaeth y Darian.

Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Dyfrig o Griced Cymru am drefnu diwrnod mor drefnus a hwyliog, ac i holl wirfoddolwyr Clwb Criced Bethesda am eu cymorth gwerthfawr i sicrhau bod y diwrnod cyfan yn llwyddiant ysgubol. Diwrnod arbennig dros ben!

Dewin a Doti

Cafodd y dosbarth Meithrin fodd i fyw ym Mhontio yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad gwych gan y Welsh Whisperer ac ymweliad gan Dewin ei hun! Cafodd pawb y cyfle i ganu a dawnio ar lwyfan Pontio, a chael tynnu lluniau gyda'r ddau ymwelydd. Roedd y sgwrsio ar y bws yn ôl i'r ysgol yn dystiolaeth o'r hwylyr oedd pawb wedi ei gael.

Hyrox Blwyddyn 3 a 4 ym Mhlas Ffrancon

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 am eu hymdrechion gwych yn her Hyrox yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon! Roedd yn bleser gweld yr holl egni, y brwdfrydedd a'r gwaith tîm arbennig a ddangoswyd gan y plant wrth iddynt daclo'r heriau corfforol amrywiol. Rydym yn hynod falch o'u dyfalbarhad ac o'r ffordd rymus buont yn cefnogi ac yn annog ei gilydd drwy gydol y diwrnod.

Gwasanaethau Dosbarth ar Waith

Cafwyd cyfres o Wasanaethau Dosbarth hynod lwyddiannus yn ddiweddar, ac roedd yn bleser pur croesawu cynifer o rieni a theuluoedd i'r ysgol. Cafodd pawb a ddaeth i mewn wledd o adloniant gan y plant, cyn cael cyfle am baned ac i eistedd i lawr i drafod llyfrau gwaith a phrofiadau ysgol gyda'u plant. Mae cydweithio'n agos gyda rhieni a theuluoedd yn elfen hollbwysig i ni, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus yn fawr iawn.

Gwasanaeth Rhieni Newydd

Hoffem ddiolch o galon i bawb a wnaeth y Gwasanaeth Rhieni Newydd yn fenter mor llwyddiannus. Diolch arbennig i Caban Ogwen, yr ymwelwyr ieuchyd, a Chynllun Gwen am eu presenoldeb, yn ogystal ag i'r tîm arlwygo a baratodd samplau o'r cinio ysgol i'r rhieni gael eu blasu. Diolch i bawb am eu hymroddiad; roedd yn bleser dechrau meithrin y berthynas hon, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar dros ben at groesawu'r disgyblion newydd atom ym mis Medi.

Disgyblion Blwyddyn 6: Diwrnod Trosglwyddo

Mae'n gyfnod cyffrous i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu taith addysgol. Yn ddiweddar, cawsant ddiwrnod trosglwyddo gwych yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd hwn yn gyfle euraidd iddynt gyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd, cwrdd â'r athrawon, a chael blas ar fywyd yr ysgol uwchradd. Cafodd y plant brofiad braf a phositif iawn sydd wedi helpu i fagu hyder ar gyfer ddechrau yno yn yr hydref.

Cystadleuaeth Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd

Rydym yn dathlu camp fawr arall ym maes chwaraeon wrth i dri o'n timau deithio i Aberystwyth ar gyfer Cystadleuaeth Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd. Bu i'r holl blant gynrychioli yr ysgol yn ardderchog. Brwydrodd y garfan rygbi cymysg blwyddyn 5 a 6 yn arwrol. Cyrhaeddodd carfan pêl-droed y genethod rownd yr wyth olaf a cyrhaeddodd y garfan TAG cymysg blwyddyn 3 a 4 y pedwar olaf. Rydym yn hynod o falch o bob un!! Diolch enfawr i'r rhieni am eu hymroddiad. A diolch arbennig i Mr Stephen Jones am hyfforddi'r holl chwaraewyr.



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Llwyddo arholiadau Gradd
Llongyfarchiadau i Aziliz Kervegant, Tandderwen, Tregarth, merch Ffion a Dominic Kervegant. Llwyddodd i ennill Gradd MA Dosbarth cyntaf mewn Eidaleg ym Mhrifysgol Caeredin. Pawb o'r teulu a'r ardal yn falch iawn o dy llwyddiant Aziliz.

Merched y Wawr
Roedd hen edrych mlaen i NosLun, Mehefin1, yn Festri Capel Shiloh Newydd wrth i Carys Dafydd groesawu y Prifardd leuan Wyn atom i roi darlith 'Y Dywysoges Gwenllian'.

Cawsom ein tywys i gyfnod tywyll yn hanes ein cenedl gyda theulu brenhinol Llys Aberffraw dan fygythiad gan filwyr Edward 1af, Brenin Lloegr, oedd yn benderfynol o gael gwared o Llewelyn ap Gruffudd a'i deulu brenhinol Cymreig.

Ganed Gwenllian yn y cartref tywysogol yn Abergwyngregyn, yn unig blentyn i Llewelyn ap Gruffudd a'i wraig Eleanor de Montford ym Mehefin 1282. Bu farw ei mam ar ei genedigaeth a chipiwyd y baban i ddiogelwch gan y teulu gan fod perygl iddi gael ei lladd gan mai hi fydda unig etifedd y teulu brenhinol Cymreig. Lladdwyd ei thad, Llewelyn ap Gruffudd, ger Pont Irfon, yn Rhagfyr 1282 a hithau Gwenllian ond ynchydig fisoedd oed ac fe'i daliwyd gan filwyr Edward 1 a gorchymwyd iddi gael ei chludo i ofal lleianod yn Sempringham yn Swydd Lincoln, gyda brenin Lloegr yn rhoi tâl am ei lloches o £20 punt y flwyddyn. Bu

Gwenllian fyw yno hyd Mehefin 1337 heb iddi wybod ei bod yn Gymraes, yn perthyn i Llys Aberffraw, yn Dywysoges ac ni wydda'i sain ei mamiaith. Ni allai'r lleianod ynganu ei henw'n gywir, gan y galwent hi yn 'Wencilian'. Mor drist ydi meddwl amdani yn treulio ei hoes ynghanol ffendiroedd llwm a gwastad dwyrain Lloegr yn hytrach na mynydd-dir gwlad ei geni.

Atgoffwyd ni ar ddiwedd darlith leuan Wyn i ninnau fel Cangen ymweld â Sempringham yn Hâf 2005 ac i fod yn troedio'r union dir y bu Gwenllian yn ei droedio. Daeth Margaret ac album o luniau hyfryd o'r daith a cawsom ail-fyw y daith hynod honno. Diolch Margaret.

Braint oedd gwranddo ar ddarlith leuan ac roedd rhai o'r aelodau yn cofio ymweliad gawson ni yng nghwmni leuan yn 2005 pan aeth â ni i fan geni Gwenllian yn Abergwyngregyn, â hynny rai wythnosau cyn mynd i Sempringham. Diolchwyd iddo am noson ardderchog ac am gyflwyno holl hanes trist y Dywysoges Gwenllian.

Bydd gwibdaith y gangen eleni Nos Lun, Gorffennaf 6, i'r Amgueddfa Forwrol yn Nefyn, gyng nghwmni y llenor Meinir Pierce Jones.

Bydd tymor newydd y gangen yn cychwyn Nos Lun, Medi 7 am 7.30 o'r gloch yn Festri Shiloh gyda noson o Frethyn Cartref. Croeso cynnes iawn i'n haelodau ac i aelodau newydd.

Dyma ddetholiad o englynion o waith leuan Wyn â ddarllenwyd ar ddiwedd ei ddarlith.

Y Plant Coll
(Yn 1283, yn dilyn llofruddio Llywelyn ap Gruffudd a'i frawd Dafydd, alltudiwyd Gwenllian, ei saith cyfnither a'i dau gefnder i Loegr – y merched i leiandai, a'r bechgyn i garchar – fel na fyddai etifedd i hawlio'r teitl Tywysog Cymru.)

Deg oeddynt o wlad gweddwon - yn alltud
Wedi'r holtt, yn gaethion;
Plant Gwynedd, etifeddion,
A gwayw braw'n rhwygo'u bron.

Hwythau, blant, ar deithiau blin - i Loegr
Fel i eigion gerwin;
O afael eu cynefin
Yn troi i'w ffawd hwnt i'r ffin.

Eu dwyn liw nos dan law nerth - hen dreisiwr
Yn dras ddiymadferth;
Dwyn plant cyn dyfod anterth
Eu bywyd, a'u byd heb werth.

Eu dwyn â gosgordd dan gysgod - yr hwyr
O Eryri'r difrod;
Gwenllian o'i babandod,
A heb un bai yn ei bod.

Ei dwyn mewn crud o Wynedd, - o noddod
Mynyddoedd Arllechwedd;
Taith ddiddychwel fel i fedd,
I dywyllwch di-allwedd.

Dwyn o'u haf ferched Dafydd - i aeaf
Diddiwedd eu cystudd;
I gwffent o fro'r nentydd,
I gaethglud bell y gell gudd.

Taith anobaith y meibion; - taith hirfaith
O dan orfod creulon
I safn diddymdra di-sôn
Nos wag ein tywysogion.

Gair o ddiolch
Fe hoffai Phil a Shiwan, Y Gornel, Allt Cerrig Llwydion, ddiolch i pawb am gyfrannu er côf am Elinor Holland at "Lip and Palate Action", sef elusen ar gyfer plant a phobol wedi'i effeithio gyda 'cleft palate'. Pan fu farw Elinor Holland, Perthi, Tregarth, casglwyd y swm o £745 er côf amdani ac roedd yr elusen yma yn agos iawn at ei chalon yn enwedig pan welai'r plant bach ar draws y byd oedd yn dioddef o'r anhwylder ar y teledu bron yn ddyddiol. Diolch o galon.

Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrrpasol.

Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.

Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375

133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 pos@enfysfunerals.co.uk

Capel Shiloh Newydd

Oedfaon bob Nos Sul am 5 o'r gloch. Croeso cynnes iawn i bawb. Dyma'r oedfaon am yr wythnosau nesa:

Gorffennaf 12: Arwel Williams, Caernarfon
Gorffennaf 19: Eric Jones, Bangor
Gorffennaf 26: Megan Williams, Porthaethwy
Awst: Dim oedfaon
Medi 6: Dafydd Iwan, Caeathro
Medi 13: Olaf Davies, Llandegfan
Medi 20: Philip Barnett, Swydd Efrog
Medi 27: Dr Ian Morris

Anfonwn ein cofion cynhesaf at un o'n haelodau, sef Noreen Jones, Bethesda, a ddathlodd ei phenblwydd yn 89 oed yn ddiweddar. Nid yw Noreen wedi medru mynychu y capel ers tro,

er hynny rydym yn meddwl amdani ac yn gobeithio iddi fedru dathlu ei phenblwydd gyda'r teulu o'i chwmpas yn llawn llawenydd.

Da clywed fod Eirwen wedi symud yn nes adre ac yn awr yn Ysbyty Eryri, gan obeithio y caiff ddychwelyd yn fuan i'w chartref yn Tyddyn Dicwm.

Cofiwch fod Drws Agored bob bore Gwener yn Shiloh rhwng 10 a 12 o'r gloch. Cyfle am sgwrs a phaned gyda ffrindiau.

Rydym yn anfon ein cofion at ein cynweinidog, Parchedig Philip Barnett, Swydd Efrog, sydd heb fod yn dda ei iechyd. Mae ei enw ar y Plan i fod hefo ni mewn oedfa yn ystod Mis Medi ac yn gwir obeithio cael ei gwmni unwaith eto.

Gwaeledd

Nid yw Gwilym Owen, 9 Tal yCae, wedi bod yn dda yn ystod y misoedd dwythfa ac anfonwn ein cofion cynhesaf ato gan fawr obeithio y bydd yn cryfhau yn fuan.

Wedi cyfnod o wyth wythnos mae Eirwen Williams,Tyddyn Dicwm, wedi cael ei symud o Ysbyty Glan Clwyd i Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon, sydd dipyn nes i'w theulu a'i ffrindiau i alw mewn i'w gweld. Brysiwch adre Eirwen.

Mae Valerie Jones, Valwyn, Dob, yn ôl yn Ysbyty Eryri, wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, yn dilyn codwm yn ei chartref. Iachad llwyr a buan i hithau Val.

Nid yw Edward Jones, Dob, wedi bod yn dda yn ddiweddar ac mae yn yr Ysbyty ar hyn o bryd. Cofion atoch chithau Edward.

Gair o ddiolch

Fel pentrefwyr hoffem ddiolch i Karen ac Alwyn Rowlands, Tan y Ffordd, Tregarth, am eich gwaith diflino ar hyd y blynyddoedd yn maethu plant o bob oed. Gwyddom eich bod wedi gorffen maethu ers Gorffennaf 2025 ond nid ydym wedi diolch i chi fel ardal am eich gwaith gwych ar hyd y blynyddoedd tan rwan Karen ac Alwyn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lois a Rob, Rhiwbeina, Caerdydd, ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Sara Fflur, ar Ebrill 2. Mae Lois yn ferch i Delyth ac Iwan Bowen Jones, 30 Tal y Cae, yn chwaer i Gruff ac yn wyres i Margaret a'r diweddar Oscar Jones, Cae Drain ac i Eddy a'r diweddar Diana Roberts, Llanfairpwll. Mae Sara yn barod wedi ymweld â'r teulu yn Nhregarth a dymunwn bob hapusrwydd i chi fel teulu ar yr achlysur llawen yma.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Marged Ann Temple Morris, Tan Garth, Gerlan, Bethesda, ar ei llwyddiant yn ennill yr ail wobwr am addurno ar fabric yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn ar ddiwedd Mis Mai. Pawb yn falch iawn o dy llwyddiant di Marged. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ferch i Jên a Richard ac yn wyres i Margaret a Glenys.

CHWARAEON

BOWLIO efo Bys a Bawd

Tarian Goffa Trefor Lewis

Ar ddydd Sadwrn braf ynghanol mis Mehefin cynhaliodd Clwb Bowlio Bethesda, dan arweiniad Richard Jones, ddiwrnod o gystadlaethau bowlio i sefydlu Tarian Goffa Trefor Lewis. Arferai Trefor chwarae i Fethesda ac mae ei wyrion, Sam a Callum, yn parhau i chwarae i'r un tîm heddiw.

Noddwyr

Prif noddwyr y diwrnod oedd Sign & Design, Ynys Môn a theulu'r diweddar Trefor Lewis. Roedd y chwaraewyr yn cystadlu am ran o'r £1000 oedd ar gael mewn gwobrau.

Diolch i bawb a chwaraeodd ac a ddaeth i gefnogi diwrnod da ar lawnt Bethesda sydd mewn cyflwr gwych dan ofal tîm gweithgar o aelodau.



Y teulu ar y maes bowlio ar noson cystadleuaeth tarian goffa Trefor Lewis. Callum Sorfleet, Hayley Whitehead, Margaret Lewis, Sam Whitehead a Simon Whitehead.



Catrin a Ryan Short o Dregarth. Cymerodd Ryan ran yn un o'r rowndiau cyn-derfynol ac mae'n aelod blaenllaw o dimau bowlio Bethesda.



Sam Whitehead a Callum Sorfleet yn fechgyn ifanc gyda'u taid y diweddar Trefor Lewis. Trefor fu'n gyfrifol am eu cyflwyno i'r gêm.



Siôn Guto Roberts, Erw Las a chwaraeodd yn y gêm derfynol yn erbyn James Todd, o Benmaenmawr. Y sgôr ar ddiwedd y gêm oedd 21- 20 i'r gŵr o Benmaenmawr a enillodd £400 tra bod Siôn yn derbyn £200.


1969

M.HUGHES
A'I FAB

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

CROESAIR



AR DRAWS

- 1 Mae dal hwn yn dangos eich bod yn flin a chas o hyd (3)
- 3 26 Ar Draws ifanc (3)
- 5 Stori arwrol hir (4)
- 8 Digon o ffrwythau i'w pigo i mi, er i ddrain fy mhigo innau (5)
- 9 Hen hanner ceiniogau (7)
- 10 Hwn rydd law y teyrnaswr yn daclus ar lywodraeth ei wlad (7)
- 12 9 Ar Draws ers talwm (5)
- 13 Sais yn dychwelyd i weld y diffyg (3)
- 15 Gwendid y disgybl Pedr deirgwaith (5)
- 17 Hunangofiant y bardd R. S. Thomas er ei fod yn rhywun enwog (3)
- 19 Gwaywffon (5)
- 20 Yr adran sy'n dangos y defnydd a'r berthynas ariannol a chyllid y wlad (7)
- 23 Libart y ddafad ar y mynydd (7)
- 24 "Marchog Iesu yn llwyddiannus, - - - - - dy gleddyf ar dy glun" emyn W W (5)
- 25 Ynni Ogwen - egni - - - - (1,3)
- 26 Tad 3 Ar Draws (3)
- 27 Tir Na - - - , cartref Osian a'r benfelen (3)

I LAWR

- 1 Blerwch yw anffawd naw a dim llai (7)
- 2 Un o'r ddwy lle cewch chi gusan (5)
- 3 Preswylwyr mynwentydd (5)
- 4 Y sacrament gyntaf o bosib (5)
- 5 Gwegian yn ansicr (7)
- 6 Twp a hurt bost ! (7)
- 7 Bod yn gynnar (4)
- 11 Mistar ar amlen weithiau (3)
- 14 Doctor car ac injan (7)
- 15 Pentref bychan i'r hogyn i'r gogledd o Rhuthun (7)
- 16 Dynion adnabyddus o Aberdaron, Aberporth a Phenderyn (3)
- 18 Cig mân (7)
- 19 - - - - ar y maen ; cacen gri (4)
- 20 Mewn ychydig o amser yn ôl mewn hedyn neu ddau (5)
- 21 Mwynhad a rydd o'r gân yn yr eglwys (5)
- 22 Trefniant sêr yr heliwr yn y ffurfafen (5)

ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2026

AR DRAWS 1 Camfa, 4 A Choffi, 10 Dilorni, 11 Erwau, 12 Ennyn, 13 Egwyddor, 15 Da Da, 17 Egwan, 19 Ei Enw, 22 Nedw, 25 Paratoi, 27 Enllib, 29 Siglo, 30 Arddangos, 31 Esyllt, 32 Cnesu

I LAWR 2 Aflan, 3 Feranda, 5 Chwerw, 6 Ffawydd, 7 Adfer, 8 Niwed, 9 Buarth, 14 Gaed, 16 Anno, 18 Gwregys, 20 Iwerddon, 21 Y Pasg, 23 Eidal, 24 Ebst, 26 Troell, 28 Llynges

Dim ond un camgymeriad a gafwyd y tro yma, sef 'tarfu' yn lle'r ateb cywir 'camfa' (1 Ar Draws)

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion hollol gywir: Stella Dafis, Rachub; Barbara Jones, Talybont; Gill King, Mynydd Llandygai; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Margaret Williams, Ann Morris, Doris Shaw, Rita Bullock, Bethesda; Elsi Prytherch, Waen Wen; Judith Hughes, Llangoed; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; John Ffrancon Griffith, Abergele; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; Huw a Gwenno, Gerlan; Wendy Eccles, Llanllechid

Yn cipio'r wobr a'r clod y mis yma mae ymdrech Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon LL54 7HN

Mwynhewch y seibiant dros yr haf, a gwelwn chi'n ôl gobeithio yn rhifyn Medi.

Atebion erbyn 21ain Awst, 2026 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Gorffennaf/Awst', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

